

Ffurflen Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir y Fflint

Enw'r swyddog sy'n gyfrifol: Nerys Affleck

Dyddiad Cwblhau:

Nodwch bod rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant erbyn 31 Mawrth 2017.

1. Cyflwyniad

Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Yn ogystal â sefydlu gwaelodlin darpariaeth, bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn galluogi Awdurdodau Lleol i:

- fesur natur a maint yr angen, a'r cyflenwad o ofal plant yn yr ardal
- nodi bylchau yn y farchnad a chynllunio sut i gefnogi'r farchnad i fynd i'r afael â nhw

Prif Ddatganiad

Y Gyfraith

1.1 Mae Deddf Gofal Plant 2006 (Deddf 2006) yn ehangu ac esbonio mewn deddfwriaeth y swyddogaeth hanfodol y mae awdurdodau lleol yn ei chwarae fel arweinwyr strategol mewn darpariaeth gofal plant yn lleol. Mae Deddf 2006 yn atgyfnerthu'r fframwaith y mae awdurdodau lleol yn gweithio oddi mewn iddo eisoes – mewn partneriaeth â'r sector preifat, gwirfoddol, annibynnol, cymunedol ac a gynhelir – i siapio a diogelu gwasanaethau plant a chanolbwyntio yn benodol ar ddarparu:

- gofal plant digonol, cynaliadwy a hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni; a
- gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â gofal plant i rieni, darpar rieni a'r rhai hynny â chyfrifoldeb rhiant neu ofal plentyn

1.2 Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb a swyddogaeth arweiniol wrth gydlynu ymdrech ar draws gwasanaethau, gan alluogi gwahanol sefydliadau fel darparwyr gofal plant o bob sector, Canolfan Byd Gwaith, ysgolion cymunedol, canolfannau integredig, a gwasanaethau iechyd lleol i weithio gyda'i gilydd i sicrhau darpariaeth cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n ymateb i anghenion plant a'u teuluoedd.

1.3 Mae Adran 22 deddf 2006 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau, cymaint ag sy'n ymarferol, darpariaeth gofal plant sy'n ddigonol i ddiwallu gofynion rhieni yn eu hardal i'w galluogi i:

- dderbyn gwaith neu aros mewn gwaith; neu
- ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant a all eu cynorthwyo i gael gwaith.

2. Cynnwys

1. Cyflwyniad/Cyd-destun
2. Gwaith Partneriaeth ac Ymgynghori
3. Yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Aseiad Anghenion Lles Lleol
4. Poblogaeth
5. Trosolwg – Mathau, Gwasanaethau a Llefydd Gofal Plant
6. Cyflenwad Gofal Plant
 - 6.1. Gwarchodwr plant
 - 6.2. Gofal Dydd Llawn
 - 6.3. Gofal Dydd Sesiynol
 - 6.4. Creche
 - 6.5. Gofal y Tu Allan i'r Ysgol
 - 6.6. Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
 - 6.7. Nani
7. Deall anghenion Rhieni/Gofalwyr
 - 7.1. Trosolwg o'r Ymgynghoriad
 - 7.2. Defnydd Presennol o Ofal Plant
 - 7.3. Y Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant
 - 7.4. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant
8. Addysg Meithrinfa Am Ddim a Darpariaeth Dechrau'n Deg
9. Darpariaeth Clwb Brecwast Am Ddim
10. Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwr / Gofal Plant Di-dreth
11. Cynaliadwyedd
12. Trawsffiniol
13. Datblygu a hyfforddi'r gweithlu
14. Canlyniadau'r Ymgynghoriad gyda Budd-ddeiliaid (fel yr amlinellwyd yn adran 2)
15. Crynodeb – Dadansoddiad bylchau a meysydd i'w gwella

Atodiadau

Atodiad 1	Data Cyflenwad Gofal Plant
Atodiad 2	Data Cyflenwad Meithrinfa Diwrnod Llawn
Atodiad 3	Data Cyflenwad Gofal Dydd Sesiynol
Atodiad 4	Data Cyflenwad Creche
Atodiad 5	Data Cyflenwad Gofal y Tu Allan i'r Ysgol
Atodiad 6	Data Cyflenwad Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored
Atodiad 7	Data Cyflenwad Nani
Atodiad 8	Data Defnydd Cyfredol Rhieni
Atodiad 9	Data Galw Gofal Plant Rhieni
Atodiad 10	Darpariaeth Addysg Rhan Amser Blynnyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen)
Atodiad 11	Darpariaeth Dechrau'n Deg
Atodiad 12	Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwr / Gofal Plant Di-dreth
Atodiad 13	Datblygu a hyfforddi'r gweithlu

1. Cyflwyniad/Cyd-destun

Methodoleg

Mae'r holl wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr Asesiad wedi'u dadansoddi fesul ardal i gyflwyno darlun o'r galw a'r cyflenwad o ran gofal plant fesul ardal cod post fel a ragnodir gan y Ddeddf.

Ardal 1 – CH4

Ardal 2 – CH5

Ardal 3 – CH6

Ardal 4 – CH7


Ardal 5 – CH8

Ardal 6 – LL12

Ardal 7 – LL18

Ardal 8 – LL19

Map o ardaloedd cod post



The map information on this page is based on the Ordnance Survey data and is not intended to be used for any other purpose. The map is not intended to be used for any other purpose. The map is not intended to be used for any other purpose.

Planning & Environment
 Flintshire County Council,
 County Hall, Mold,
 Flintshire, CH7 6NF.
 Chief Officer: Mr Andrew Farrow

Scale 1:175,000 @ A4
 OS Map: 250K
 Produced: 28/02/2017

O Medi 2016 a Rhagfyr 2016, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori i sefydlu barn rhieni a gofalwyr yn Sir y Fflint ynglŷn â gofal plant. Trwy gymysgedd o waith estyn allan a holiaduron strwythuredig, gofynnwyd barn rhieni/gofalwyr ynglŷn ag argaeledd a hygyrchedd gofal plant.

Rhodddwyd cyhoeddusrwydd i'r fersiwn electronig o'r arolwg i holl rieni plant yn Sir y Fflint drwy ysgolion, drwy ddarpariaeth gofal plant presennol, y wasg leol, gwefan a chyfrif Twitter y Cyngor Sir, amrywiaeth o rwydweithiau grwpiau lleiafrifol, cyflogwyr lleol ac mewn nifer o leoliadau eraill lle mae rhieni yn cwrdd. Cafwyd 133 o ymatebion o'r arolwg Survey Monkey ar-lein.

Cynhaliwyd ymgynghoriad wyneb yn wyneb trwy strwythurau presennol fel ymweliadau gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint i grwpiau rhieni a phlant bach; canolfannau integredig; grwpiau dysgu i deuluoedd mewn ysgolion; lleoliadau cyn ysgol a lleoliadau eraill lle roedd rhieni eisoes yn cyfarfod. O ganlyniad, cwblhaodd 38 o rieni gopiâu caled o'r arolwg a'u dychwelyd trwy'r post. Targedwyd rhieni mewn ardaloedd mwy difreintiedig a grwpiau ar y ffiniau (fel rhieni plant anabl) i ddarparu cydbwysedd yn erbyn y tebygolrwydd y byddai llai o rieni yn yr ardaloedd a grwpiau hyn yn dychwelyd arolygon.

Roedd gofyn i bob darparwr gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) gwblhau ffurflen Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) ar-lein. Gofynnwyd i leoliadau sy'n darparu gofal yn ystod y tymor i gwblhau ffurflen yn ystod wythnos 11 i 15 Gorffennaf 2016 a gofynnwyd i ddarparwyr gofal yn y gwyliau lenwi'r ffurflen yn ystod wythnos 1 i 5 Awst 2016. Cwblhaodd 77.1% o ddarparwyr gofal plant cofrestredig yn Sir y Fflint y ffurflen gais ar-lein.

Yr her allweddol wrth gynnal y CSA hwn oedd sicrhau cywirdeb y data. Yn anffodus bychan iawn oedd y gyfradd ymateb i'r holiadur rhieni gydag adborth yn rhoi sylwadau ynglŷn â hyd. Cyfradd ymateb darparwyr gofal plant Sir y Fflint i'r arolwg ar-lein SASS 1 oedd 76.1%, sy'n welliant sylweddol ar gyfraddau dychwelyd blaenorol. Ond, mae'r data a gynhwyswyd yn yr atodiadau yn anghyflawn oherwydd nid oedd rhai darparwyr wedi ateb rhai o'r cwestiynau yn y ffurflen SASS ac mae'n amlwg yn rhai enghreifftiau eu bod wedi camddechongli'r cwestiynau a rhoi atebion sy'n gwrthdweud ei gilydd.

Bydd y camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu'r CSA yn cael eu cymeradwyo gan Ddatblygiad Blynnyddoedd Cynnar Sir y Fflint a'r Bartneriaeth Gofal Plant (FEYDCP) a, dros y pum mlynedd nesaf, bydd cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau hyn yn cael eu monitro a'u hadrodd yn chwarterol yn ein cyfarfodydd FEYDCP.

2. Gwaith Partneriaeth ac Ymgynghori

Dan atodlen 2 y Canllawiau Statudol, mae budd-ddeiliaid priodol wedi'u nodi ac ynghlwm â chyflawni'r Asesiad hwn a datblygu'r Cynllun Gweithredu. Maent yn cynnwys:

- **Bwrdd Diogelu Plant** - Aros am ymateb i'r e-bost
- **Sefydliadau Ymbarél / Partner**

Wedi'u cynnwys ar y rhestr aelodaeth ar gyfer Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a Sir y Fflint mae:

- Cymdeithas Grwpiau Chwarae Cyn Ysgol Cymru
- Mudiad Meithrin
- Cymdeithas Cenedlaethol Meithrinfeydd Dydd
- Cymdeithas Proffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY)
- Clybiau Plant Cymru

Mae *Deddf Gofal Plant 2006* yn nodi bod EYDCP yn gyfrifol am “....sichrau cyflawniad y ddyletswydd dan adran 22 ac adran 26 y *Ddeddf Gofal Plant i sichrau darpariaeth gofal plant digonol ac asesu digonolrwydd y gofal plant yn yr ardal Awdurdod Lleol yn flynyddol.*” (Cylchlythyr Canllawiau LIC 013/2008 p6). Bydd FEYDCP yn cydweithio gydag asiantaethau perthnasol i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn unrhyw Gynlluniau Gweithredu o'r *Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA)*. (Detholiad o Gylch Gorchwyl FEYDCP).

- **Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg** – Mae'r swyddog arweiniol ar gyfer y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cadeirio'r fforwm gan ei fod yn trafod materion yn ymwneud â gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn rheolaidd. Mae'r materion hyn hefyd yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd Partneriaeth Hawliau Cynnar y mae'r Swyddog Datblygu Gofal Plant yn eu mynychu. Ac mae Cadeirydd y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg, ochr yn ochr â'r Dirprwy Reolwr Mudiad Meithrin ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru yn mynychu'r FEYDCP yn rheolaidd lle mae cydlyniad materion sicr yn ymwneud â gofal plant yn y sector cyfrwng Cymraeg.
- **Fforwm Chwarae Strategol** – mae'r Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gohebu yn rheolaidd gyda Thîm Datblygu Chwarae Sir y Fflint, wedi mynychu'r seminar Digonolrwydd Chwarae 2016 a bydd yn aelod o'r Fforwm Chwarae Strategol pan fydd wedi'i ffurfio yn ddiweddarach eleni (2017). Mae'r Swyddog Datblygu Chwarae wedi darparu ymateb 100% i'r holl arolygon CSA o gynlluniau chwarae mynediad agored, cofrestredig ac eithriedig.

- **Swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith** – mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi'u cynrychioli mewn cyfarfodydd FEYDCP gan PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth) - Menter gan Lywodraeth Cymru i helpu i oresgyn rhwystrau i waith pryd mae gofal plant yw'r prif fater.
- **AGGCC** – mae cynrychiolydd AGGCC yn mynychu cyfarfodydd chwarterol FEYDCP. Mae'r Swyddog Datblygu Gofal Plant yn derbyn adroddiadau wythnosol gan AGGCC sy'n cynnwys y cofrestradau diweddaraf a gofrestrwyd, a ganslwyd ac a ataliwyd yn y Sir.
- **Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd** – Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi darparu cefnogaeth hanfodol wrth brosesu ffurflenni SASS ac arolygon rhieni a chyflogwyr ac mae'r wybodaeth hon wedi'i defnyddio i hysbysu adrannau cyflenwad a galw'r CSA. Bydd y CSA a gwblhawyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (GGDSF) fel ei fod yn hygyrch i rieni/gofalwyr, gweithwyr gofal plant a gweithwyr proffesiynol eraill.
- **Awdurdodau Lleol Cyfagos** – mae cyswllt rheolaidd wedi'i gynnal gydag Awdurdodau Lleol cyfagos, sy'n cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Ddinbych a Gorllewin Swydd Caer a Chaer. Trwy ymgynghori â chydweithwyr trawsffiniol sydd wedi gallu rhannu gwybodaeth ynglŷn â llefydd addysg Blynyddoedd Cynnar ac ymholiadau rhieni. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn adran trawsffiniol yr adroddiad hwn (Adran 12).
- **Cyflogwyr Lleol** – mae GGDSF yn cefnogi cyflogwyr lleol trwy ddarparu gwybodaeth i weithwyr, mynychu ffeiriau swyddi, darparu cefnogaeth estyn allan ac arolygu cyflogwyr ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Cysylltwyd â chyflogwyr lleol a chwblhaodd nifer ohonynt arolwg post a darparodd hyn gipolwg ar rwystrau a wynebir gan rieni sy'n dychwelyd i'r gwaith a'r ystod o wasanaethau gofal plant sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion.
- **Roedd budd-ddeiliaid eraill** yr ymgynghorwyd â nhw yn cynnwys ysgolion ac adrannau awdurdod lleol eraill fel Cynllunio, Lleoliadau Cyn Ysgol Iach a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn – y landlord tai cymdeithasol. Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf e-byst a thrafodaethau wyneb yn wyneb.

3. Yr Aseiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Aseiad Anghenion Llesiant Lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu 'set data cyffredin' i gefnogi'r aseidiadau lles lleol sydd eu hangen dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r set data hwn yn cynnwys pedwar thema: lles cymdeithasol; economaidd; diwylliannol; ac amgylcheddol yr ardal ac wrth wneud hynny yn tynnu ar ystod o ymchwil a thystiolaeth ystadegol, gan gynnwys:

- Dangosyddion Lles Cenedlaethol
- Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Pecyn Aseiad Poblogaeth Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA)
- Dangosyddion datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mesur Lles Cenedlaethol
- Datganiad Polisi Cyfoeth Naturiol, Mesur Amgylchedd
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae'r set data cyffredin yn darparu man cychwyn i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ledled Cymru ddechrau asesu lles yn yr ardal a chynhyrchu aseiad. Mae'n rhan o'r dystiolaeth y bydd BGC yn ei defnyddio i gefnogi eu hasesiadau, fydd hefyd yn cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth leol gan gynnwys barn dinasyddion trwy aseidiadau fel yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

Mae drafft cyntaf y Aseiad o Lles ar gyfer Sir y Fflint yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad tan 31 Mawrth 2017.

Bydd unrhyw fylchau a nodwyd gan y CSA yn cyfrannu at yr Aseiad o Anghenion Lles Lleol.

4. Poblogaeth

Mae Sir y Fflint yn sir yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, sy'n ffinio â swydd Caer yn Lloegr i'r dwyrain, Sir Ddinbych i'r gorllewin a Wrecsam i'r de. Mae'r arfordir ar hyd moryd y Ddyfrdwy wedi'i ddatblygu yn helaeth gan ddiwydiant ac mae arfordir y gogledd wedi'i ddatblygu ar gyfer twristiaeth. Mae Bryniau Clwyd yn meddiannu llawer o orllewin y sir. Y prif drefi yw Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Hawarden, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry, a Shotton. Y prif afonydd yw'r Ddyfrdwy (y foryd sy'n ffurfio llawer o'r arfordir) a'r Clwyd.

Oni bai y nodir fel arall, mae'r wybodaeth ddemograffig yn yr adran hon yn seiliedig ar ddata o Gyfrifiad 2011, ochr yn ochr â rhagamcanion poblogaeth mwy diweddar a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn union yr un wybodaeth a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol i ddatblygu'r Asesiad Anghenion Lles Lleol.

Ffigurau Poblogaeth

5. Mae'r nifer o blant yn y boblogaeth yn bwysig wrth benderfynu faint o ofal plant sydd ei angen i ddiwallu'r galw yn lleol. Yn Sir y Fflint, 19% o'r boblogaeth sy'n blant ar hyn o bryd. I bwrpas yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2015 bod 28.349 o blant a phobl ifanc yn Sir y Fflint rhwng 0 ac 15 oed.
6. Er bod poblogaeth Sir y Fflint yn gyffredinol wedi cynyddu o 152,666 yn 2011 i 154.074 yn 2015, mae poblogaeth plant yn ystod y cyfnod hwn wedi amrywio ond rhagwelir y bydd yn syrthio i 26,793 erbyn 2039. Ar hyn o bryd mae tua 1,700 o enedigaethau byw bob blwyddyn yn Sir y Fflint. Ond, mae'r tueddiad cyffredinol mewn cyfraddau geni at i lawr ac felly erbyn 2026 disgwylir y bydd rhwng 11% ac 17% yn llai o blant a phobl ifanc yn byw yn y rhanbarth nag yr oedd yn 2001. Yn ddiddorol, bydd y gostyngiad mwyaf mewn niferoedd plant ymysg plant 3 i 7 oed.
7. Plant gydag anabledd
Y gyfradd plant a phobl ifanc y rhoddwyd gwybod sy'n anabl yn ystod diffiniadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yw 7.3% o'r boblogaeth 0-18 oed. Roedd 2,337 o blant gydag anabledd yn Sir y Fflint yn 2015 a rhagwelir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu yn raddol i 2,343 erbyn 2020.

8. Tlodi

Ystyrir bod aelwyd mewn tlodi os yw cyfanswm incwm blynyddol yr aelwyd (gan gynnwys unrhyw fudd-daliadau) yn is na 60% o'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr. Mae tua 30% o aelwydydd yn Sir y Fflint yn syrthio yn is na'r cyfartaledd hwn ac mae hyn yn golygu bod 5,770 o blant yn byw mewn tlodi.

9. Cyfansoddiad y Teulu

Mae gan Sir y Fflint 18.737 o aelwydydd gyda phlant dibynnol. Mae nifer y rhieni sengl yn ffactor bwysig yn y galw am ofal plant oherwydd eu bod yn llai tebygol o fod yn gweithio pan mae eu plant yn ifanc ond â mwy o angen am ofal plant i gefnogi gwaith pan fydd eu plant yn yr ysgol. Yn Sir y Fflint, mae 4,466 o aelwydydd â rhieni sengl. Mewn 35.6% o aelwydydd o'r fath, mae rhieni mewn gwaith rhan amser ac mae 29.2% mewn cyflogaeth llawn amser. Nid yw 35.1% mewn cyflogaeth.

10. Ethnigrwydd

Yng nghyfrifiad 2011, nododd 95.9% o bobl sy'n byw yn Sir y Fflint mai eu grŵp ethnig oedd 'Gwyn Prydeinig'. Mae hyn yn cymharu â 93.2% ledled Cymru ac 80.5% ledled Cymru a Lloegr.

11. Proffil Iaith Gymraeg

Mae 13.2% o bobl yn Sir y Fflint yn siarad Cymraeg o'i gymharu â 19% ledled Cymru a 35% yng Ngogledd Cymru. Defnyddir y Gymraeg yn y rhan fwyaf o ardaloedd y sir gan leiafrif helaeth. Mewn pum ardal yn y sir, mae dros bumed o'r preswylwyr yn siarad Cymraeg.

12. Cyflogaeth

Mae Sir y Fflint yn lle deniadol i weithio gydag economi cryf cyffredinol a pherfformiad cymharol dda mewn twf swyddi. Mae cyfran uchel o breswylwyr Sir y Fflint (43%) yn gweithio y tu allan i'r Sir, ond mae hyn wedi'i gydbwysu gan nifer uchel o bobl sy'n teithio i Sir y Fflint i weithio. Mae cyflogaeth yn y sector manwerthu yn llawer uwch na'r gyfradd genedlaethol, 30% o'i gymharu â 8% ar gyfer Prydain a 11% ar gyfer Cymru). Mae dibyniaeth isel ar y sector cyhoeddus ar gyfer cyflogaeth (19%) yn erbyn cyfartaledd Cymru (32%).

Aelwydydd

13. Mae Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint 2000 – 2015 wedi galluogi adeiladu bron i 500 o dai newydd bob blwyddyn yn Sir y Fflint hyd at 2015. Er mae'n debyg na fydd y raddfa hon o adeiladu yn arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am ofal plant yn Sir y Fflint, lle mae datblygiadau sylweddol o fath sy'n debygol o ddenu teuluoedd gyda phlant ifanc, mae angen trafodaethau gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod yr effaith ar y farchnad gofal plant wedi'i asesu. Gweler y tabl isod sy'n dangos datblygiadau a ragwelir.

Cynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint

ARDAL	CYFANSWM UNEDAU	2016	2017	2018	2019	2020
Afonwen	19	0	5	7	7	0
Bagillt	57	0	12	0	20	25
Brychtyn	253	50	55	62	62	0
Bwcle	435	37	59	116	107	54
Caerwys	54	0	18	18	18	0
Coed Talon / Pontybodkin	57	0	0	19	19	19
Cei Connah	339	25	25	50	60	30
Drury a Burntwood	0	0	0	0	0	0
Ewlo	30	3	17	0	0	0
Ffynngroyw	11	0	4	4	3	0
Y Fflint	632	60	93	94	60	60
Mynydd y Fflint	8	3	2	0	0	0
Garden City	1373	0	92	105	135	150
Gronant	38	0	14	15	9	0
Gwernymynydd	17	4	5	8	0	0

Penarlâg	20	6	1	1	1	1
Higher Kinnerton	0	0	0	0	0	0
Treffynnon	236	0	29	40	32	0
HCAC	35	5	10	10	10	0
Coed-llai	55	0	15	0	0	0
Licswm	1		1	0	0	0
Mancot	4	4	0	0	0	0
Yr Wyddgrug	293	50	60	50	50	25
Mostyn	71	1	19	18	18	16
Mynydd Isa	58	0	0	19	20	19
New Brighton	36	3	15	6	6	6
Northop Hall	71	10	10	10	10	7
Penyffordd	17	2	7	8	0	0
Penyffordd / Penymynydd	70	44	0	0	0	0
Rhes-y-Cae	10	0	5	5	0	0
Saltney	43	27	14	0	0	0
Sychdyn	39	0	26	13	0	0
Chwitfordd	41	0	0	0	7	34
Cyfanswm	4420	334	612	678	54	473

5. Trosolwg – Mathau, Gwasanaethau a Lleoedd Gofal Plant

5.1 Nifer Darparwyr Gofal Plant a Math o Wasanaethau (Wedi'u cofrestru a heb gofrestru / cymeradwy)

Math o Ofal Plant	Cofrestredig	Heb gofrestru / Cymeradwyo:	Gwasanaethau Gofal Plant a Gynigiwyd	Cofrestredig	Heb gofrestru / Cymeradwyo
Gwarchodwyr Plant	94 (70.1%)		Gofal dydd llawn drwy gydol y flwyddyn	88	0
			Gofal hanner dydd drwy gydol y flwyddyn	126	0
			Cyn ysgol	75	0
			Ar ôl Ysgol	79	0
			Gofal cofleidiol	51	0
			Darpariaeth gwyliau	70	0
			Arall	6	0
Gofal dydd					
Gofal Diwrnod Llawn	29 (93.5%)		Gofal meithrinfa dydd llawn drwy gydol y flwyddyn	24	0
			Gofal meithrinfa hanner diwrnod drwy gydol y flwyddyn	24	0
			Cyn ysgol	14	0
			Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin bore	4	0
			Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin prynhawn	5	0
			Ar ôl Ysgol	14	0
			Gofal cofleidiol	20	0
			Cinio	14	0
			Darpariaeth gwyliau	14	0
			Crèche	0	0

			Arall	1	0
Gofal Dydd Sesiynol	37 (90.2%)		Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin bore	28	
			Grŵp Chwarae/Cylch Meithrin prynhawn	6	
			Gofal cofleidiol	6	
			Cinio	5	
			Arall	2	
Crèche	3 (60%)		Gweithredu diwrnod llawn		
			Gweithredu boreau		
			Gweithredu prynhawn		
			Darpariaeth gwyliau		
			Arall		3
Gofal Tu Allan i Ysgol	37 (79.6%)		Cyn ysgol	14	
			Ar ôl Ysgol	24	
			Darpariaeth gwyliau	10	
			Sesiynau chwarae		
			Arall		
Darpariaeth chwarae mynediad agored	2	60	Cyn ysgol		
			Ar ôl Ysgol		
			Darpariaeth gwyliau		
			Sesiynau chwarae	2	60
			Arall		
Nani		2 (40%)	Gofal dydd llawn drwy gydol y flwyddyn		2
			Gofal hanner dydd drwy gydol y flwyddyn		2
			Cyn ysgol		1
			Ar ôl Ysgol		1
			Gofal cofleidiol mewn lleoliad addysg gynnar rhan amser, e.e. grŵp chwarae neu ddsbarth meithrin mewn ysgol		1
			Darpariaeth gwyliau yn y gwyliau ysgol		1
			Arall		
CYFANSWM	201	63			

Dosbarthiad Daeryddol y Darparwyr Gofal Plant a Gwasanaethau a ddarperir (Wedi'u cofrestru a wedi'u heithrio / cymeradwyo)

Ardal 1 - CH4

18 gwarchodwr plant yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

4 Darparwr Gofal Dydd llawn yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

3 Gofal Dydd Sesiynol yn darparu sesiynau grŵp chwarae bore yn unig

Does dim creche wedi cofrestru yn yr ardal hon

4 Darparwr Gofal y Tu Allan i'r Ysgol yn darparu sesiynau cyn ac ar ôl ysgol yn unig

5 Chwarae Mynediad Agored eithriedig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

Does dim nanis wedi'u cymeradwyo yn yr ardal hon

Ardal 2 - CH5

23 Gwarchodwr plant yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

10 Darparwr gofal dydd llawn yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

7 Darparwr gofal dydd sesiynol yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

2 creche yn darparu sesiynau bore a prynhawn yn unig

10 Darparwr Gofal y Tu Allan i'r Ysgol yn darparu sesiynau cyn ac ar ôl ysgol a gofal plant yn y gwyliau

8 darpariaeth chwarae Mynediad Agored eithriedig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

1 darpariaeth chwarae Mynediad Agored cofrestredig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

1 Nani cymeradwy yn darparu gofal dydd llawn yn unig

Ardal 3 - CH6

1 Gwarchodwr plant yn darparu gofal dydd llawn a darpariaeth gwyliau yn unig

4 Darparwr gofal dydd llawn yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

3 Gofal Dydd Sesiynol yn darparu sesiynau grŵp chwarae bore yn unig

Does dim creche wedi cofrestru yn yr ardal hon

3 Darparwr Gofal y Tu Allan i'r Ysgol yn darparu sesiynau ar ôl ysgol a gofal plant yn y gwyliau

9 darpariaeth Chwarae Mynediad Agored eithriedig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

Does dim nanis wedi'u cymeradwyo yn yr ardal hon

Ardal 4 - CH7

43 Gwarchodwr plant yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

9 Darparwr gofal dydd llawn yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

15 Darparwr gofal dydd sesiynol yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

1 creche cofrestredig yn darparu gwasanaethau eraill yn unig

12 darparwr Gofal y Tu Allan i'r Ysgol yn darparu sesiynau cyn ac ar ôl ysgol a gofal plant yn y gwyliau

21 darpariaeth Chwarae Mynediad Agored eithriedig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

1 Nani cymeradwy yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

Ardal 5 - CH8

5 Gwarchodwr plant yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

2 ddarparwr gofal dydd llawn yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

6 darparwr Gofal Dydd Sesiynol yn darparu sesiynau grŵp chwarae bore, cinio a gwasanaethau eraill

Dim creche wedi cofrestru yn yr ardal hon

8 darparwr Gofal y Tu Allan i'r Ysgol yn darparu sesiynau cyn ac ar ôl ysgol a gofal plant yn y gwyliau

12 darpariaeth Chwarae Mynediad Agored eithriedig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

Dim data yn cael ei gasglu o'r ardal hon gan nanis

Ardal 6 - LL12

2 warchodwr plant yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau

Dim darparwr Gofal Dydd Llawn wedi'u cofrestru yn yr ardal hon

1 Darparwr gofal dydd sesiynol - dim gwasanaethau wedi'u rhestru

Does dim creche wedi cofrestru yn yr ardal hon

Dim data yn cael ei gasglu o'r ardal hon ar gyfer gofal y tu allan i'r ysgol

3 Chwarae Mynediad Agored eithriedig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

Does dim nanis wedi'u cymeradwyo yn yr ardal hon

Ardal 7 - LL18

Does dim gwarchodwyr gofal plant wedi cofrestru yn yr ardal hon

Does dim darparwyr Gofal Dydd Llawn wedi'u cofrestru yn yr ardal hon

Does dim darparwyr gofal dydd sesiynol wedi'u cofrestru yn yr ardal hon

Does dim creche wedi cofrestru yn yr ardal hon

Does dim darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol wedi'u cofrestru yn yr ardal hon

2 ddarpariaeth Chwarae Mynediad Agored eithriedig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

Does dim nanis wedi'u cymeradwyo yn yr ardal hon

Ardal 8 - LL19

Dim data yn cael ei gasglu o'r ardal hon ar gyfer gwarchodwyr plant

Does dim darparwyr Gofal Dydd Llawn wedi'u cofrestru yn yr ardal hon

1 Darparwr Gofal Dydd Sesiynol yn darparu sesiynau grŵp chwarae prynhawn a gwasanaeth cofleidiol

Does dim creche wedi cofrestru yn yr ardal hon

Does dim darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol wedi'u cofrestru yn yr ardal hon

1 darpariaeth Chwarae Mynediad Agored cofrestredig yn darparu sesiynau cynllun chwarae

Does dim nanis wedi'u cymeradwyo yn yr ardal hon

5.2. Llefydd gofal plant – cyflenwad a'r galw yn ôl math o ofal plant

Darpariaeth Cofrestredig – Yn ystod y tymor

Math o Ofal Plant	Llefydd fesul cofrestriad	Yn Ystod y Tymor				
		Uchafswm capasiti y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ddyddiol	Nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth	Nifer y llefydd gwag	Nifer o blant ar y rhestr aros	Nifer llefydd gofal plant sydd eu hangen
Gofalwr Plant	701	1079	755	429	23	
Gofal dydd	4148					
Meithrinfa Diwrnod Llawn	1572	2,677	2,223	1,747	25	
Gofal Dydd Sesiynol	898	1,301	1,137	454	37	
Crèche	83	95	35	68	0	
Gofal Tu Allan i Ysgol	1595	2,257	2,487	1850	20	
Darpariaeth chwarae mynediad agored	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Nani	Amh.	-	7	0	0	

Darpariaeth eithriedig a chymeradwy – yn ystod y tymor

Math o Ofal Plant	Yn Ystod y Tymor				
	Uchafswm capasiti y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ddyddiol	Nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth	Nifer y llefydd gwag	Nifer o blant ar y rhestr aros	Nifer llefydd gofal plant sydd eu hangen

Gofalwr Plant	0	0	0	0	0
Gofal dydd					
Meithrinfa Diwrnod Llawn	0	0	0	0	0
Gofal Dydd Sesiynol	0	0	0	0	0
Crèche	0	0	0	0	0
Gofal Tu Allan i Ysgol	0	0	0	0	0
Darpariaeth chwarae mynediad agored	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.
Nani		7	0	0	

Darpariaeth Cofrestredig – Gwyliau ysgol

Math o Ofal Plant	Llefydd fesul cofrestriad	Gwyliau Ysgol				
		Uchafswm capasiti y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ddyddiol	Nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth	Nifer y llefydd gwag	Nifer o blant ar y rhestr aros	Nifer llefydd gofal plant sydd eu hangen
Gofalwr Plant	701	537	2,104	186	5	
Gofal dydd	4148					
Meithrinfa Diwrnod Llawn	1572	1,008	4,518	151	0	
Gofal Dydd Sesiynol	898	Amh.	Amh.	Amh.	Amh.	
Crèche	83	49	31	-	0	

Gofal Tu Allan i Ysgol	1595	618	2,074	660	0	
Darpariaeth chwarae mynediad agored	195	Amh.	409	Amh.	Amh.	
Nani	0	0	0	0	0	

Darpariaeth eithriedig a chymeradwy – Gwyliau Ysgol

Math o Ofal Plant	Yn Ystod y Tymor				
	Uchafswm capasiti y llefydd gofal plant sydd ar gael yn ddyddiol	Nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth	Nifer y llefydd gwag	Nifer o blant ar y rhestr aros	Nifer llefydd gofal plant sydd eu hangen
Gofalwr Plant	0	0	0	0	0
Gofal dydd					
Meithrinfa Diwrnod Llawn	0	0	0	0	0
Gofal Dydd Sesiynol	0	0	0	0	0
Crèche	0	0	0	0	0
Gofal Tu Allan i Ysgol	0	0	0	0	0
Darpariaeth chwarae mynediad agored	Amh.	3783	Amh.	Amh.	
Nani		7	0	0	

6.1. Gwarchodwyr Plant

6.1.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd ar-lein yn ystod Gorffennaf ac Awst 2016 gyda 70.01% o warchodwyr plant cofrestredig wedi'i gwblhau.

- **Ystod o wasanaethau a ddarperir**

Mae'r mwyafrif o warchodwyr plant ar draws y Sir yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau a arolygir. Ond, yn Ardal 4 (CH7) roedd llai na 50% o warchodwyr plant yn darparu gwasanaeth cofleidiol. Nodwyd hefyd, ar draws y sir, bod 32% o warchodwyr plant yn dewis peidio darparu Gofal Hanner Diwrnod (bore neu brynhawn). Nid oes unrhyw warchodwyr plant cofrestredig yn Ardal 7 (LL18).

- **Nifer a math o lefydd gofal plant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Yn ystod y tymor ar draws yr ystod lawn o wasanaethau a gynigir, mae llawer mwy o lefydd rhan amser na llefydd llawn amser wedi'u derbyn gyda llai na 7% o lefydd yn cael eu derbyn yn achlysurol. Mae'r disgrifiad hwn yn wir ar draws yr holl ardaloedd daearyddol. Hefyd, yn ystod gwyliau'r ysgol mae canrannau bron union yr un fath yn berthnasol i'r nifer sy'n derbyn llefydd llawn amser, rhan amser ac achlysurol ym mhob ardal.

- **Nifer o lefydd sydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Gofynnodd yr arolwg am bob plentyn sydd â datganiad neu sy'n aros am asesiad ffurfiol a'r nifer oedd 28, sef 4% o'r holl blant sy'n mynychu lleoedd gofal plant ac mae 3 ohonynt yn llefydd addysg gynnar a ariennir. Mae gan draean o'r plant hyn anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ffactor a all gyfrannu at wneud y nifer hwn mor isel yw oherwydd bod y mwyafrif o blant sy'n mynychu lleoliadau gofal plant yn ieuengach nag oedran ysgol ac felly ni fyddai ganddynt ddatganiad nac yn aros am asesiad ffurfiol eto.

- **Nifer y llefydd iaith Gymraeg a lenwyd**

Ar hyn o bryd (Gwanwyn 2017), nid oes gan Sir y Fflint unrhyw warchodwyr plant cofrestredig sy'n rhoi gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg

- **Llefydd gwag a rhestrau aros**

Nododd 32 o'r gwarchodwyr plant nad oes ganddynt unrhyw lefydd gwag o gwbl a dim ond 28 oedd â phump neu lai o lefydd gwag ar gyfer yr wythnosau a ddewiswyd ar gyfer yr arolwg a gwyliau'r ysgol. Rhoddodd y 29 gwarchodwr plant sy'n weddill gyfrif am 490 o lefydd gwag ac roedd y mwyafrif o'r llefydd gwag hyn yn ardaloedd CH5 (Cei Connah a Shotton) a CH7 (Bwcle a New Brighton). Dim ond 9 o warchodwyr plant sydd â rhestrau aros yn ystod y tymor ac mae'r ffigwr hwn yn syrthio i 2 yn ystod gwyliau ysgol gyda 24 o blant yn aros am lefydd. Ond, mae gan rai gwarchodwyr plant â rhestrau aros hefyd lefydd gwag felly rydym yn credu bod y gwarchodwyr plant hyn wedi camddeall y cwestiwn ac wedi cynnwys plant sydd wedi cadw lle i ddechrau yn ddiweddarach ac nad oes angen y lle eto.

- **Amseroedd agor ac ystod hyd y sesiynau**

Ni ofynnwyd i ddarparwyr gofal plant ddefnyddio cloc 24 awr ac felly roedd yn anodd darparu dadansoddiad trylwyr o'r amseroedd a nodwyd. Hefyd, nid oedd 20 o'r ymatebwyr yn deall beth oedd ei angen, gan roi amser cychwyn yn unig neu ddim oriau o gwbl.

Mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant, fel y gofynnwyd, wedi darparu eu horiau llawn sy'n amrywio o amser dechrau rhwng 7.00am a 9.00am, ac amser gorffen rhwng 4.00pm a 7.00pm. Yn ystod y tymor, dechreuodd 50% cyn 8am, a syrthiodd y ffigwr hwn i ychydig o dan 50% ar gyfer gwyliau'r ysgol. Roedd lleoliadau sy'n cynnig gofal plant ar ôl 6pm yn rhoi cyfrif am 15% o'r ymatebwyr yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau ysgol. Ni nododd unrhyw warchodwyr plant eu bod yn darparu gofal dros nos dan y cwestiwn 'Gweithredu Gofal Plant y tu allan i Oriau Gwaith', ond nododd un gwarchodwr plant yn Garden City dan wasanaethau eraill eu bod yn darparu gofal dros nos, gan awgrymu bod rhai gwarchodwyr plant yn gweld fformat yr arolwg yn ddryslyd. Dim ond un gwarchodwr plant yng Ngorllewin Treffynnon oedd yn cynnig gwasanaeth ar benwythnos gyda'r gwasanaeth ar gael 7am tan 7pm saith niwrnod yr wythnos.

- **Ystod oedran y plant**

Mae cofrestriad gwarchodwyr plant yn cynnwys gofalu am blant dan 12 oed ond, o'r gwarchodwyr plant a arolygwyd, roedd 7 yn derbyn plant 12-17 oed. Dim ond 17 o'r ymatebwyr oedd yn cynnig gofal ar gyfer babanod dan 12 mis oed, gyda'r mwyafrif o warchodwyr plant yn gofalu am yr ystod oedran 2 i 11 oed.

Yn ystod y tymor, yr ystod oedran sy'n defnyddio'r gwarchodwyr plant fwyaf yw 5-7 oed, ac yna 8-11 oed, 2 oed, tair oed ac yna 4 oed. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae tua traean yn llai o blant yn defnyddio gwasanaethau gwarchodwyr plant ym mhob ystod oedran, yn ôl y gwarchodwyr plant a arolygwyd, efallai oherwydd bod rhieni yn cymryd gwyliau blynyddol ar yr adeg yma o'r flwyddyn.

- **Amrywiaeth o ffioedd**

Gofynnodd y cwestiwn hwn yn yr arolwg am gyfradd fesul awr ond roedd dan y teitl 'Ffioedd Gofal Plant – Cost fesul Sesiwn' ac felly ymatebodd traean gyda chyfradd fesul awr a'r gweddill gan nodi eu ffioedd sesiwn. I bwrpas y dadansoddiad hwn, rydym wedi dewis yr ymatebion a ddarparodd gyfradd fesul awr ac rydym wedi cymryd yn ganiataol eu bod wedi defnyddio'r nodiadau arweiniad i gyfrifo'r swm hwn yn gywir.

Ar gyfer gofal dydd llawn, roedd y rhai a ddarparodd gyfradd fesul awr yn amrywio o £2.50 i £4.05 yr awr. Ar gyfer hanner diwrnod (am neu pm) yn ystod y tymor neu'r gwyliau ysgol, codwyd tâl o £2.50 i £4.66 yr awr. Roedd ffioedd cyn ysgol yn amrywio o £3.00 i £4.00 yr awr gyda gofal ar ôl ysgol yn amrywio yn fwy helaeth o £2.50 i £4.80. Dim ond pumed o ymatebwyr oedd yn darparu ffi am ofal cofleidiol ac roedd hyn yn amrywio o £2.50 i £4.00 yr awr. Mae'r ffigurau hyn yn rhoi cyfradd fesul awr o £3.50 yr awr i bob plentyn.

6.1.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Mae gwarchodwyr plant wedi'u rhannu yn dda drwy Sir y Fflint ac mae amrywiaeth eang o wasanaethau yn cael eu darparu gan y gwarchodwyr plant hyn.
- Mae'r mwyafrif o lefydd gofal plant yn cael eu cymryd ar sail rhan amser ac achlysurol, felly mae'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion newidiol y teuluoedd.
- Ar draws holl ardaloedd Sir y Fflint, mae llefydd gwag yn ystod y tymor a gwyliau ysgol
- Mae gwarchodwyr plant yn darparu swm sylweddol o ofal ar ôl ysgol ar gyfer plant pump oed a hŷn, yn enwedig yn Ardal 4 (CH7).
- Mae gwarchodwyr plant wedi'u cofrestru fel manau cynhwysol ac felly maent yn fodlon darparu gofal plant i blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd.
- Mae'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn Sir y Fflint yn darparu gofal plant cyn 8am.
- Mae'r ddarpariaeth gofal plant rhataf ar gael yng Nghei Connah, ond nid yw'r lleoliadau hyn yn dueddol o gynnwys gostyngiad i frodyr a chwiorydd.

Gwendidau:

- Nid oes unrhyw ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint, a dim ond 29% sydd â rhai elfennau dwyieithog i'w darpariaeth.
- Yn ôl data SASS, mae darpariaeth gyfyngedig iawn i rieni sy'n chwilio am oriau anghyffredin ar gyfer patrymau shifft, gyda'r cychwyn cynharaf am 7.00am, a'r cau hwyraf am 7.00pm. Ond, rydym yn ymwybodol bod rhai gwarchodwyr plant yn darparu gofal y tu allan i'r oriau hyn yn achlysurol.
- O'r gwarchodwyr plant sydd wedi cwblhau'r SASS ar-lein, dim ond un nododd eu bod yn darparu gofal dros nos.
- Dim ond un gwarchodwr plant yn Ardal 5 (CH8) oedd yn darparu gofal plant ar y penwythnos, ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.
- Y gwarchodwyr plant sy'n darparu gofal yn yr ardaloedd ger Gorllewin Sir Caer yw'r drytaf, sef £35.00 am ddiwrnod llawn, ond nid yw'r lleoliadau hyn yn codi unrhyw ffioedd ychwanegol.

Gofal Diwrnod Llawn

6.2.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd ar-lein yn ystod Gorffennaf ac Awst 2016 gyda 93.5% o ddarparwyr Gofal Dydd Llawn wedi'i gwblhau.

- **Ystod o wasanaethau a ddarperir**

Mae'r mwyafrif o leoliadau Gofal Dydd Llawn yn darparu sesiynau Meithrinfa Dydd Llawn, ond mae llai na 50% o ymatebwyr yn cynnig darpariaeth Meithrinfa Hanner Dydd ac mae'r un peth yn berthnasol i leoliadau sy'n darparu darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, amser cinio ac yn y gwyliau. Hefyd, mae llai na 20% o'r lleoliadau Gofal Dydd Llawn hyn yn darparu sesiynau Grŵp Chwarae bore neu brynhawn, ond, gallwn ddod i'r casgliad bod y rhain yn lleoliadau sydd wedi cofrestru fel gofal dydd llawn oherwydd eu bod yn darparu sesiynau bore a phrynhawn. Does dim darpariaeth Gofal Dydd Llawn cofrestredig yn Ardal 6, 7 ac 8 (LL12, LL18 ac LL19) ond mae'r rhain yn ardaloedd gwledig sy'n ffinio ar Siroedd cyfagos lle mae darpariaeth Gofal Dydd ar gael gerllaw. Dim ond un darparwr Gofal Dydd Llawn wnaeth gwblhau'r SASS fel lleoliad sy'n gweithredu yn gyfan gwbl fel clwb gwyliau, ond mae gan y GGDSF fanylion saith lleoliad sy'n darparu'r gwasanaeth hwn gyda'r mwyafrif yn darparu yn ystod gwyliau'r haf a dim ond un lleoliad yn darparu yn ystod gwyliau'r Nadolig ym Mwcle.

- **Nifer a math o lefydd gofal plant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Yn ystod y tymor, mae 30% o lefydd yn cael eu cymryd gan blant llawn amser, gyda llefydd rhan amser yn rhoi cyfrif am 67% o lefydd ac archebion achlysurol yn 3%. Mae'r ffigurau hyn yn newid yn sylweddol yn ystod gwyliau'r ysgol gyda llefydd llawn amser ond yn cyfrif am 14% a llefydd rhan amser yn 67% o'r holl lefydd, ac archebion achlysurol yn 8%.

- **Nifer o lefydd sydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Mae 42 o lefydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anabledd neu anghenion addysgol arbennig. Mae 5 ohonynt yn llefydd addysg gynnar a ariennir. Roedd gan y mwyafrif o'r plant hyn gyflyrau meddygol neu anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r plant hyn ar draws holl ardaloedd Sir y Fflint lle mae gofal diwrnod llawn ar gael.

- **Nifer y llefydd iaith Gymraeg a lenwyd**

Mae dau leoliad yn darparu darpariaeth Cylch Meithrin bore a phrynhawn, un yn Nhrefyddyn ac un yn Nhreffynnon. Maent hefyd yn darparu gofal cofleidiol a darpariaeth cinio. Ar adeg yr arolwg, roedd 75 lle wedi'u llenwi. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Feithrinfeydd Dydd cyfrwng Cymraeg wedi'u cofrestru yn y Sir.

- **Llefydd gwag a rhestrau aros**

Nododd tri lleoliad, ym Mancot, Sealand a Chei Connah nad oedd ganddynt unrhyw lefydd gwag. Nododd y 26 lleoliad sy'n weddill bod ganddynt 1,898, gyda'r nifer uchaf o lefydd gwag gofal dydd yn yr Wyddgrug, y Fflint, Cei Connah ac Ewloe. O'r 50% o ddarparwyr a oedd yn cynnig sesiynau hanner diwrnod, roedd y mwyafrif o lefydd gwag ar gyfer sesiynau'r prynhawn, yn enwedig yn y Fflint, Shotton, Llanceurgain a Bagillt. Roedd bron i 50% o'r llefydd gwag ar ôl ysgol yn y Fflint. Ar gyfer y rhai sy'n darparu sesiynau grŵp chwarae, roedd llawer mwy o sesiynau gwag yn y prynhawn nag yn y bore, sy'n dangos bod sesiynau bore yn fwy addas ar gyfer plant oedran ifanc. Dim ond un lleoliad yn Sealand oedd â rhestr aros ar gyfer gwyliau'r ysgol yn ogystal ag ar gyfer y tymor (ond, ni lwyddodd y lleoliad i ychwanegu unrhyw niiferoedd ym mocsys dilynol yr arolwg). Mae gan ddau leoliad arall yn Penyffordd a Cei Connah restrau aros yn ystod y tymor yn unig, gyda'r rhan fwyaf o lefydd gwag yn ystod tymhorau'r haf a'r hydref.

- **Amseroedd agor ac ystod hyd y sesiynau**

Methodd pedwar lleoliad â darparu unrhyw amseroedd o gwbl a dim ond amseroedd agor wnaeth dau leoliad eu darparu. O'r 23 ymatebwr oedd yn weddill, darparwyd ystod o sesiynau oedd ar gael yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol, ac roedd y rhain yn bennaf yn gweithredu rhwng 7.30am a 6.00pm neu rywle yn y canol. Ni wnaeth unrhyw leoliad roi tic yn y bocs Gofal ar Benwythnos, ond mae un lleoliad ym Mwcle yn darparu sesiwn gofal dydd llawn o 08.00am i 4.00pm ar ddydd Sadwrn. Nid oedd unrhyw leoliad yn darparu gofal dros nos. Nid oedd 11 o'r ymatebwyr yn darparu gofal yn y gwyliau a dewisodd y ddau leoliad a oedd yn darparu gofal i beidio rhoi unrhyw oriau. O'r 18 o ymatebwyr oedd yn weddill, roedd gan y mwyafrif oriau union yr un fath â'u horiau yn ystod y tymor ac roedd bron bob un yn darparu 13 wythnos o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.

- **Ystod oedran y plant**

Mae pob lleoliad gofal dydd llawn yn Sir y Fflint yn gofalu am blant dan 12 oed yn unol â gofynion cofrestru AGGCC. Mae dosbarthiad cytbwys o leoliadau gofal dydd llawn a all gyflenwi ar gyfer plant ym mhob categori oedran. Mae ychydig dan hanner y darparwyr gofal dydd llawn yn gallu darparu ar gyfer plant rhwng 0 a 7 oed. Mae bron bob darparwr yn gallu derbyn plant rhwng

2 a 4 oed oherwydd bod hyn yn cynnwys y cofrestriadau gofal dydd llawn sy'n darparu naill ai dwy sesiwn grŵp chwarae neu ddarpariaeth cofleidiol dros 4 awr. Yn Ardal 5 (CH8) nid oes darpariaeth gofal dydd llawn ar gyfer plant 5-11 oed.

- **Amrywiaeth o ffioedd**

Yn ôl y data SASS a gasglwyd, mae cost fesul awr y gofal dydd llawn yn amrywio rhwng £3.55 a £4.35 ac am hanner diwrnod neu lai mae'n amrywio o £2.80 i £6.60 yr awr, gyda chost gofal cinio yn amrywio o £1.00 i £6.66. Mae traean o'r ymatebwyr wedi rhoi cost y sesiwn llawn yn hytrach na'r gost fesul awr ac mewn llawer o achosion nid ydynt wedi nodi hyd y sesiwn felly nid yw'n bosibl cyfrifo'r gost fesul awr yn yr amgylchiadau hyn. Mae 22 o'r lleoliadau hyn yn cynnig gostyngiad i frodyr a chwirydd gyda'r mwyafrif oedd ddim wedi'u lleoli yn Ardaloedd 2 a 4 (NH5 a CH7). Nid yw unrhyw un o'r lleoliadau yn codi unrhyw ffioedd ychwanegol.

6.2.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Mae ystod dda o wasanaethau yn cael eu darparu gan leoliadau gofal dydd llawn gyda dim ond ychydig llai na hanner yn darparu gofal cofleidiol, gofal ar ôl ysgol, clybiau cinio a gofal yn y gwyliau.
- Gofal dydd llawn yw'r gwasanaeth sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf cyffredin, ac yna gofal hanner diwrnod yn y bore a darpariaeth ar ôl ysgol.
- Nodwyd bod plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn defnyddio'r holl leoliadau mewn pob ardal lle mae gofal dydd llawn ar gael.
- Ar hyn o bryd mae llefydd gwag ym mhob ardal mewn lleoliadau sy'n darparu gofal dydd llawn, gofal hanner diwrnod, cyn neu ar ôl ysgol a sesiynau grŵp chwarae.
- Dim ond dau leoliad o'r 29 sydd â rhestrau aros.
- Mae hyd y sesiynau sydd ar gael yn yr ardaloedd a'r oriau sydd ar gael yn amrywio o 7.30am tan 6.00pm
- Mae gan ardaloedd 1 – 8 gofal dydd llawn ar gael yn ystod o leiaf 13 wythnos o'r gwyliau ysgol, a'r unig eithriad yw wythnos y Nadolig.
- Mae 75% o'r lleoliadau yn darparu gostyngiadau i frodyr a chwirydd ac nid yw unrhyw un yn codi tâl am eitemau ychwanegol fel bwyd, teithio neu glytiau.

Gwendidau:

- Does dim Meithrinfeydd Gofal Dydd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint. Yr unig ddarparwyr gofal dydd llawn cofrestredig yw'r ddau Gylch Meithrin sy'n gweithredu yn Treuddyn a Threffynnon.
- *Does dim darpariaeth Gofal Dydd Llawn cofrestredig yn Ardal 6, 7 ac 8 (LL12, LL18 ac LL19) ond mae'r rhain yn ardaloedd gwledig sy'n ffinio ar Siroedd cyfagos lle mae darpariaeth Gofal Dydd ar gael gerllaw.*
- *Mae llai na 50% o ymatebwyr yn cynnig darpariaeth Meithrinfa Hanner Dydd ac mae'r un peth yn berthnasol i leoliadau sy'n darparu darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, amser cinio ac yn y gwyliau.*
- Mae'r defnydd o leoedd gofal plant llawn amser yn ystod gwyliau'r ysgol yn arbennig o isel ac felly os yw'n cael ei ddefnyddio, mae'n dueddol o fod yn rhan amser a all arwain at broblemau cynaladwyedd i'r sector hwn.
- Cafodd y sesiynau grŵp chwarae a sesiynau meithrinfa hanner diwrnod yn y prynhawn drafferth denu cymaint o blant â'r sesiynau bore.
- Nid oedd unrhyw leoliad yn darparu gofal dros nos, a dim ond un lleoliad ym Mwcle oedd yn darparu sesiwn gofal dydd llawn ar ddydd Sadwrn.
- Does dim gofal dydd llawn yn cael ei ddarparu cyn 7.30am neu ar ôl 6.00pm
- Yn Ardal 5 (CH8) nid oes darpariaeth Gofal Dydd Llawn ar gyfer plant 5-11 oed.

6.2 Gofal Dydd Sesiynol

6.3.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Crynowch y canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda darparwyr, gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn Atodiad 3. Dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol, gan gynnwys dosbarthiad daearyddol a chategoriâu iaith:

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd ar-lein yn ystod Gorffennaf ac Awst 2016 gyda 90.2% o ddarparwyr Gofal Dydd Sesiynol wedi'i gwblhau.

- **Ystod o wasanaethau a ddarperir**

Mae nifer o'r darparwyr gofal sesiynol rŵan wedi'u cofrestru fel gofal dydd llawn oherwydd eu bod yn darparu dwy sesiwn a gwasanaeth cinio neu ddarpariaeth cofleidiol dros bedair awr. Nid oes unrhyw ofal sesiynol ar gael yn Ardal 7 (LL18 – Trelawnyd a Gwaenysgor). Does dim sesiynau prynhawn yn Ardaloedd 1, 3 a 5 (CH4, CH6 a CH8) a dim sesiynau bore yn cael eu cynnal yn Ardaloedd 6 ac 8 (LL12 ac LL19). Dim ond chwech lleoliad sy'n cynnig clwb cinio yng Nghei Connah, Shotton, Yr Wyddgrug, Treffynnon a Treuddyn ac o'r rhain roedd Shotton, yr Wyddgrug a Threuddyn hefyd yn cynnig gofal cofleidiol. Mae'r lleoliadau eraill sy'n darparu gofal cofleidiol yng Nghilcain, Gronant a Shotton. Nid yw unrhyw un o'r lleoliadau yn darparu sesiynau yn ystod gwyliau'r ysgol.

- **Nifer a math o lefydd gofal plant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Mae nifer llawer uwch yn defnyddio llefydd yn y bore mewn grŵp chwarae / cylch meithrin na'r sesiynau prynhawn. Mae'r holl ddata a gesglir yn cyfeirio at y cyfnod yn ystod y tymor, ond cwblhaodd ddau leoliad yr adran gwyliau ysgol mewn camgymeriad, sydd eto yn ddangos bod cynllun y SASS yn ddryslyd. Mae 54% o lefydd wedi'u llenwi yn rhan amser gyda 45% yn llefydd llawn amser a'r 1% sy'n weddill yn llefydd achlysurol.

- **Nifer o lefydd sydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Mae 21 o blant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn defnyddio gofal sesiynol. Mae 9 ohonynt yn llefydd addysg gynnar a ariennir. Mae'r plant hyn wedi'u gwasgaru dros bob ardal o'r sir gyda'r mwyafrif, boed yn blant â datganiadau neu'n aros am ddatganiadau ffurfiol, ag anawsterau llefydd, iaith a chyfathrebu neu anawsterau emosiynol ac ymddygiad.

- **Nifer y llefydd iaith Gymraeg a lenwyd**

Does dim grwpiau chwarae cyfrwng Cymraeg yn gweithredu yn Ardaloedd 1, 6, 7 ac 8 (CH4, LL12, LL18 ac LL19). Yn Ardal 2 mae dau Gylch Meithrin, un yn Shotton ac un yn Garden City yn cynnig 88 lle a 46 o blant yn mynychu. Yn Ardal 3 (Fflint) mae dau Gylch Meithrin, ond dim ond un wnaeth gwblhau'r SASS ac mae lle i 60 gyda 31 yn mynychu. Yn Ardal 4, mae tri Cylch Meithrin (Wyddgrug (x) a Threuddyn) ond dim ond yr un yn yr Wyddgrug wnaeth gwblhau'r SASS, gyda lle i 24 a 37 yn mynychu. Yn olaf, mae gan Ardal 5 Gylch Meithrin yn Nhreffynnon a Picton, a chwblhaodd lleoliad Picton y SASS gan ddangos capasiti o 56 a 24 yn mynychu.

- **Llefydd gwag a rhestrau aros**

Mae llefydd gwag yn bron i draean o gapasiti'r holl leoliadau ledled y Sir. Gan gymryd yn ganiataol bod y lleoliadau wedi cyfrifo eu llefydd gwag yn gywir gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarparwyd mae gan Ardal 3 (CH6) ac Ardal 8 (LL19) lefydd gwag sy'n fwy na 50%. Does dim rhestrau aros ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae lleoliadau sy'n darparu trwy gyfrwng y Saesneg, neu yn Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog, wedi nodi mai dim ond 7 sydd ar y rhestr aros ar gyfer tymor y Gwanwyn, 17 ar gyfer tymor yr Haf a 15 ar gyfer tymor yr Hydref. Ond, rydym yn cymryd yn ganiataol bod y rhain yn blant anghymwys sy'n aros i fod yn ddigon hen i ddechrau gan bod digon o lefydd gwag yn yr ardal.

- **Amseroedd agor ac ystod hyd y sesiynau**

Methodd wyth lleoliad â darparu unrhyw amseroedd agor. O'r 29 ymatebwr sy'n weddill, mae 22 yn darparu sesiynau bore ac o'r rhain, dim ond 10 sy'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener gyda'r mwyafrif yn dewis cyfuniad o ddiwrnodau o un i bedwar bore yr wythnos. Mae'r sesiynau yn gyffredinol yn amrywio o 2 i 4 awr o hyd, gan ddechrau rhwng 8.30am a 9.30am a gorffen rhwng 11.00am ac 1.00pm. O'r wyth lleoliad sy'n darparu sesiynau yn y prynhawn, sy'n dueddol o agor ychydig o ddiwrnodau yr wythnos, mae chwech ohonynt yn darparu gofal cofleidiol. Mae'r sesiynau prynhawn yn amrywio o 2 i 3.75 awr o hyd, gan ddechrau rhwng 11.30am a 12.45pm a gorffen rhwng 2.30pm ac 3.15pm. Mae sesiynau amser cinio yn 1 awr o hyd.

- **Ystod oedran y plant**

O'r 978 o blant sy'n cael gofal gan ddarparwyr gofal dydd sesiynol, mae 28% yn 2 oed, 53% yn 3 oed ac 19% yn 4 oed. Mae'r ardaloedd sy'n denu niferoedd uwch o blant 2 oed yn gwneud hynny gan eu bod yn cynnwys darparwyr Dechrau'n Deg. Yn ardaloedd CH4, CH7 a CH8 mae mwy o blant pedair oed oherwydd y nifer uchel o Ddarparwyr Addysg Gynnar yn yr ardaloedd hyn.

- **Amrywiaeth o ffioedd**

Yn ôl y data SASS, mae'r gyfradd awr ar gyfer sesiynau bore a sesiynau prynhawn yn amrywio o £1.00 i £10.00. Mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu bod rhai lleoliadau wedi camddehongli'r canllawiau ar gyfer cyfrifo cyfradd fesul awr ac maent mewn gwirionedd wedi cynnwys eu cyfradd sesiwn. O wybodaeth leol, gallwn gasglu y byddai'r cost sesiwn ar gyfartaledd rhwng £5.00 a £6.50. Cofnodir bod sesiynau cinio yn costio rhwng £2.00 a £3.00. Dim ond dau leoliad nododd ffi sesiwn cofleidiol sef £11.00 yn Nhrefyddyn a £22.50 yng Nghilcain. Dim ond saith lleoliad oedd yn cynnig gostyngiadau i frodyr a chwiorydd, gan amrywio o 10% i 50% ac un lleoliad yn cynnig gostyngiad i efeilliaid. Dim ond dau leoliad oedd â ffioedd ychwanegol, un yn yr Wyddgrug a'r llall yn Nhreffynnon. Roedd y ddau yn codi tâl am glytiau, prydau, cludiant, byrbrydau ac arall (sef ffi cofretsru).

6.3.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Mae 15 o'n darparwyr gofal sesiynol yn ddarparwyr Dechrau'n Deg ac yn cynnig llefydd gofal plant am ddim i blant dwy oed.
- Mae darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig yn dda gyda nifer o'r plant hyn yn cael cefnogaeth a ariennir gan yr Awdurdod Lleol.
- Mae digon o lefydd gwag ar gyfer yr holl ofal sesiynol; er nad oes unrhyw ddarparwyr gofal sesiynol yn Ardal 7 (LL18 – Gwaenysgor a Threlawnyd), a bydd y ddarpariaeth trawsffiniol agosaf yn Nyserth neu Prestatyn.
- Mae ystod o ffioedd ond mae'n dueddol o fod yn rhatach fesul awr na mathau eraill o ofal plant, yn enwedig ar gyfer sesiynau bore yn unig neu brynghawn yn unig.
- Mae rhestrau aros yn fychan iawn ac yn dueddol o gynnwys y rhai sy'n aros i gyrraedd y gofynion oedran.
- Mae rhai lleoliadau yn cynnig clwb cinio a gwasanaethau cofleidiol i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.

Gwendidau:

- Mae'r ystod o wasanaethau a gynigir yn gyfyngedig, gyda'r mwyafrif o leoliadau yn cynnig sesiynau bore yn unig.
- Dim ond 10 lleoliad oedd yn gweithredu gwasanaeth ddydd Llun i ddydd Gwener, gyda'r gweddill ar agor o 1 i 4 diwrnod yr wythnos.
- Does dim Cylchoedd Meithrin yn gweithredu yn Ardaloedd 1, 6, 7 ac 8 (CH4, LL12, LL18 ac LL19).
- Mae'r mwyafrif o lefydd ond wedi'u llenwi rhan amser ac mae'r nifer sy'n derbyn llefydd grŵp chwarae yn y prynghawn yn isel.

6.3 Crèche

6.4.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd ar-lein yn ystod Gorffennaf ac Awst 2016 gyda 60% o'r ddarpariaeth Creche cofrestredig wedi'i gwblhau.

- **Ystod o wasanaethau a ddarperir**

O'r tri lleoliad a ddarparodd ddata trwy'r SASS, nododd pob un eu bod yn darparu gwasanaethau eraill yn unig – roedd lleoliad yn Queensferry yn cynnig sesiynau bore drwy gydol y flwyddyn a sesiynau prynhawn dim ond yn ystod y tymor. Roedd y ddau leoliad arall ym Mwcle a Shotton yn cynnig 'Gofal plant achlysurol i gefnogi hyfforddiant neu weithgareddau eraill gan rieni'.

- **Nifer a math o lefydd gofal plant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Oherwydd natur darpariaeth creche, mae pob presenoldeb yn achlysurol ac mae'r lleoliad yn Queensferry yn darparu gofal i blant pan fydd eu rhieni yn defnyddio'r cyfleusterau hamdden cyfagos ac mae'r ddau leoliad arall ar gael ochr yn ochr â chwrs hyfforddiant yn ôl yr angen. Ar adeg cwblhau'r SASS roedd presenoldeb yn uchel yn y lleoliad yn Queensferry gyda 40 o blant yn mynychu, ond dim ond ychydig iawn oedd yn mynychu'r ddau leoliad arall, efallai oherwydd mai dim ond un cwrs oedd yn cael ei gynnal yr wythnos honno gyda'r angen am creche.

- **Nifer o lefydd sydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Ni ddarparwyd unrhyw ffigurau gan unrhyw un o'r lleoliadau ar gyfer yr adran hon o'r SASS, efallai oherwydd natur achlysurol yr archebion.

- **Nifer y llefydd iaith Gymraeg a lenwyd**

Does dim cyfleuster Creche cyfrwng Cymraeg ar gael yn y sir, ac mae'r tri lleoliad a gwblhaodd y SASS yn darparu eu gwasanaethau yn 'Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog'.

- **Llefydd gwag a rhestrau aros**

Rhestrodd yr holl lleoliadau lefydd gwag sydd i'w ddisgwyl oherwydd natur achlysurol y rhan fwyaf o'r archebion. Nid oedd gan unrhyw un o'r lleoliadau restr aros.

- **Amseroedd agor ac ystod y gwasanaethau**

Mae creche Queensferry ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener drwy gydol y flwyddyn o 9.30am tan 12.30pm ac yn ystod y tymor yn unig mae hefyd yn agor ar ddydd Mercher a dydd Gwener rhwng 12.30pm a 2.30pm. Mae darpariaeth Shotton yn darparu gwasanaeth yn ystod y tymor ar ddydd Llun rhwng 9.00am a 12.00pm ac ar ddydd Gwener rhwng 12.00pm a 3.00pm.

- **Ystod oedran y plant**

Mae lleoliad Queensferry yn darparu ar gyfer plant 1 – 12 oed ac mae lleoliadau Bwcle a Shotton yn targedu plant 1 – 5 oed yn benodol.

- **Amrywiaeth o ffioedd**

Mae lleoliad Queensferry yn codi £3.20 y sesiwn, bore neu brynhawn. Mae gwasanaethau creche Bwcle a Shotton am ddim gan eu bod yn cael arian gan Lywodraeth Cymru.

6.4.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Llefydd creche a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhieni sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi.
- Gweithio gyda'r Gwasanaethau Hamdden i ddarparu gofal plant ar y safle ar gyfer rhieni sy'n defnyddio'r cyfleusterau hamdden.

Gwendidau:

- Does dim gwasanaethau Creche yn Ardaloedd 1, 3, 5, 6, 7, na 8 (CH4, CH6, CH8, LL12, LL18a ac LL19)
- Mae ystod cyfyngedig o wasanaethau, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Does dim cyfleusterau creche cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod.

6.4 Gofal Tu Allan i Ysgol

6.5.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd ar-lein yn ystod Gorffennaf ac Awst 2016 gyda 79.6% o ddarparwyr Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol wedi'i gwblhau. Mae'r mwyafrif helaeth o leoliadau yn Sir y Fflint wedi'u cofrestru ond nid yw'r ychydig o leoliadau sydd heb eu cofrestru wedi dychwelyd eu 'holiaduron SASS ar gyfer lleoliadau heb eu cofrestru' ac felly mae'r dadansoddiad a ganlyn yn seiliedig ar y darparwyr cofrestredig a gwblhaodd y ffurflenni SASS yn unig.

- **Ystod o wasanaethau a ddarperir**

O'r 37 a lenwodd y ffurflen SASS, mae 24 yn cynnig Gofal ar ôl Ysgol, 14 yn darparu Clybiau Brecwast sy'n talu ffi a 10 yn darparu Gofal Plant yn y Gwyliau. Ni wnaeth unrhyw ddarpariaeth gwblhau'r SASS ar gyfer Ardaloedd 6, 7 ac 8 (LL12, LL18 ac LL19), ond mae gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (GGDSF) wybodaeth ar eu cronfa ddata ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r ysgol yn yr ardaloedd hyn. Mae tri o'r clybiau brecwast yn cael eu cynnal ochr yn ochr â'r mentrau clwb brecwast am ddim mewn ysgolion (gweler Adran 9) ac mae 17 o glybiau brecwast eraill yn cael eu cynnal yn annibynnol mewn ysgolion. Mae Gofal Plant yn y Gwyliau ond wedi'i gofnodi yn Ardaloedd 2, 3, 4 a 5 (CH5, CH6, CH7 a CH8)

- **Nifer a math o lefydd gofal plant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Mae bron i dair gwaith yn fwy o lefydd ar ôl ysgol wedi'u cymryd o'i gymharu â llefydd brecwast. Ar wahân i wasanaethau Creche, y darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol sydd, o bell ffordd, yn gweld y cymysgedd mwyaf o lefydd rhan amser ac achlysurol yn cael eu cymryd yn rheolaidd ar draws yr Awdurdod. Mae 63% o lefydd wedi'u llenwi yn rhan amser gyda 21% yn rhoi cyfrif am lefydd llawn amser a'r 16% sy'n weddill yn lefydd achlysurol.

- **Nifer o lefydd sydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Rhoddir gwybod bod 80 o blant ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledd yn mynychu gofal y tu allan i'r ysgol a'u bod wedi'u dosbarthu ar draws holl ardaloedd y Sir. Mae gan y mwyafrif o'r plant hyn anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, anawsterau emosiynol ac ymddygiad neu anawsterau dysgu penodol. Mae nifer o'r plant hyn yn cael arian gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer Dwylo Ychwanegol trwy'r grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol.

- **Nifer y llefydd iaith Gymraeg a lenwyd**

Ni wnaeth unrhyw un o'r darparwyr gofal cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol gwblhau eu ffurflenni SASS, ond gall GGDSF gadarnhau bod clybiau ar ôl ysgol yn y Fflint, yr Wyddgrug, Treffynnon a Picton sy'n gweithredu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

- **Llefydd gwag a rhestrau aros**

Yn ôl y data, mae llawer mwy o lefydd gwag ar gael mewn clybiau ar ôl ysgol o'i gymharu â'r clybiau cyn ysgol ar draws yr awdurdod ond yn benodol yn Ardaloedd 1, 4 a 5 (CH4, CH7 a CH8). Mae gan bob sir nifer tebyg o lefydd gwag ar gael ar gyfer llefydd Gofal yn y Gwyliau ac mae hyn wedi'i gadarnhau gan y data a gesglir sy'n dangos nad oes rhestr aros gan unrhyw ddarparwr gofal yn y gwyliau. Dim ond un lleoliad ym Mwcle sydd â rhestr aros ar gyfer llefydd cyn ac ar ôl ysgol yn ystod y tri tymor, sy'n gyfanswm o 20 o blant.

- **Amseroedd agor ac ystod hyd y sesiynau**

Methodd saith lleoliad â darparu unrhyw amseroedd agor. O'r 30 sy'n weddill, darparodd un ar ddeg ofal cyn ac ar ôl ysgol dros bum niwrnod o'r wythnos. Darparodd 18 arall ofal ar ôl ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener a darparodd un lleoliad ym Mynydd Isa glwb Brechwast yn unig, dros bum niwrnod. Roedd yr oriau agor ar gyfer clybiau brechwast yn amrywio o ddechrau am 7.30am i orffen am 9.00am gyda'r mwyafrif yn dechrau am 8.00am. Nododd 10 lleoliad eu bod yn darparu gofal clwb brechwast cyn 8.00am. Cynhelir clybiau ar ôl ysgol rhwng 3.00pm a 6.00pm, gyda'r lleoliadau ar agor ar gyfartaledd am 2.5 awr. Ar gyfer gofal yn y gwyliau, roedd yr oriau yn amrywio rhwng amser cychwyn o 7.30am ac amser gorffen o 6.00pm. Roedd y mwyafrif o leoliadau ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol, ar wahân i'r Nadolig, gyda dim ond pedwar yn darparu ar gyfer cyfnod y Nadolig.

- **Ystod oedran y plant**

Roedd y mwyafrif o leoliadau yn darparu ar gyfer yr ystod oedran 3 i 11 oed. Dim ond un lleoliad ym Mancot oedd yn darparu ar gyfer plant 5 i 7 oed yn unig, gyda lleoliad arall ym Mancot yn darparu ar gyfer plant 7 i 11 oed yn unig.

- **Amrywiaeth o ffioedd**

Gan gymryd yn ganiataol nad oedd y lleoliadau yn darparu cyfraddau fesul awr, roedd ffioedd ar gyfer sesiynau cyn ysgol yn amrywio o £2.50 i £4.00 ac mae gofal ar ôl ysgol yn codi tâl o £2.50 i £7.50 y sesiwn. Rhoddodd y clybiau gwyliau gymysgedd o gyfraddau fesul awr a ffioedd sesiwn yn amrywio o £25.00 yr awr i £25.00 am ddiwrnod llawn. Darparodd un ar ddeg o'r lleoliadau ostyngiad i frodyr a chwiorydd sy'n amrywio o 10% i 20% ar gyfer ail blentyn, ac mae gan rai raddfa ffioedd yn dibynnu

ar sawl plentyn sy'n mynychu. Dim ond un lleoliad yng Ngheirion sy'n codi fffioedd ychwanegol ar gyfer clytiau, prydau, byrbrydau a gwasanaethau eraill (teithiau oddi ar y safle).

6.5.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Mae gofal ar ôl ysgol ar gael ym mhob ardal o'r awdurdod lleol
- Mae gan bob ysgol yn Sir y Fflint glwb Brecwast sy'n codi ffi, darpariaeth am ddim neu gyfuniad o'r ddau.
- Darpariaeth y tu allan i'r ysgol sy'n darparu'r gyfradd uchaf o lefydd gofal plant yn rhan amser ac yn achlysurol gan ddarparu ar gyfer patrymau shifft newidiol y rhieni.
- Mae plant ag anghenion addysgol arbennig a/neu anabledd yn cael eu cefnogi i'w galluogi i ddefnyddio gofal plant y tu allan i'r ysgol.
- Mae gan yr holl ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod glybiau ar ôl ysgol
- Dim ond un lleoliad ym Mwcle oedd â rhestr aros ac roedd gan bob lleoliad ar draws y sir lefydd gwag.
- Darparodd 10 lleoliad ddarpariaeth clwb brecwast yn dechrau cyn 8.00am.
- Roedd yr holl leoliadau y tu allan i'r ysgol yn ystod y tymor yn darparu eu gwasanaeth o dydd Llun i ddydd Gwener.
- Mae cost gofal y tu allan i'r ysgol, yn enwedig yn y gwyliau, yn gymharol rhad o'i gymharu â mathau eraill o ofal plant, ac mewn llawer o achosion mae gostyngiadau ar gael i frodyr a chwiorydd.

Gwendidau:

- Yn ardaloedd 1, 4 a 5 (CH4, CH7 a CH8) gall nifer uwch o lefydd gwag arwain at bryderon cynladwyedd ar gyfer rhai lleoliadau.
- Dim ond pedwar clwb gwyliau sy'n darparu ar gyfer gwyliau'r Nadolig
- Does dim lleoliad gofal y tu allan i'r ysgol yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant dros 11 oed.
- Darpariaeth y tu allan i'r ysgol sy'n darparu'r gyfradd uchaf o lefydd gofal plant yn rhan amser ac yn achlysurol, ond gall hyn arwain at bryderon cynladwyedd wrth i'r lleoliad gael anhawster rheoli cyfraddau presenoldeb amrywiol.

6.6 Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored

6.6.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni a gwblhawyd gan ddarpariaeth eithriedig a chofrestredig yn ystod wythnos 1 i 5 Awst 2016. Mae un cynllun chwarae wedi cofrestru gydag AGGCC ac mae'r gweddill yn ddarpariaeth eithriedig.

- **Ystod o wasanaethau a ddarperir**

Roedd 62 sesiwn chwarae mynediad agored ar gael mewn 59 o leoliadau yn ystod gwyliau'r haf gan weithredu ym mhob ardal ledled yr Awdurdod.

- **Nifer a math o lefydd gofal plant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Mae bob lle mewn cynllun chwarae mynediad agored yn cael ei ddefnyddio ar sail achlysurol a llenwyd 4010 o lefydd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 1 Awst 2016.

- **Nifer o lefydd sydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Yn ystod cynlluniau chwarae'r haf 2016, cymerodd tri deg pedwar o blant ran yn y cynllun bydi a ariennir gan Action for Children i'w galluogi i gymryd rhan yn y sesiynau cynllun chwarae ar draws yr Awdurdod cyfan. Roedd gan y mwyafrif o'r plant hyn anawsterau emosiynol ac ymddygiad neu anawsterau dysgu penodol fel ADHD.

- **Nifer y llefydd iaith Gymraeg a lenwyd**

Mae tri cynllun chwarae cyfrwng Gymraeg yn gweithredu yn yr Wyddgrug, y Fflint a Charmel ac maent yn cael eu hariannu / eu cynnal ar y cyd â'r Urdd.

- **Llefydd gwag a rhestrau aros**

Oherwydd natur achlysurol y math hwn o ddarpariaeth, does dim llefydd gwag a dim rhestrau aros.

- **Amseroedd agor ac ystod hyd y sesiynau**

Mae 32 sesiwn yn gweithredu o 10.30am i 12.30pm a 30 o sesiynau yn cael eu cynnal o 1.30pm i 3.30pm gyda'r holl gynlluniau

chwarae yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cynhaliwyd 14 o'r cynlluniau chwarae dros bum wythnos yn ystod gwyliau'r haf, roedd 5 yn gweithredu am bedair wythnos a'r gweddill am dair wythnos. Nid oes unrhyw gynlluniau chwarae ar gael yn ystod y gwyliau ysgol eraill.

- **Ystod oedran y plant**

Mae'r holl leoliadau eithriedig yn derbyn plant o 5 i 17 oed, ond mae'r lleoliad cofrestredig yn derbyn plant o 5 i 11 oed.

- **Amrywiaeth o ffioedd**

Mae'r holl gynlluniau chwarae am ddim gan eu bod wedi'u hariannu trwy'r Cynghorau Tref a Chymuned ac Action for Children.

6.6.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Mae cynlluniau chwarae ar gael yn 8 Ardal Sir y Fflint gyda chymysgedd o sesiynau bore a phrynhawn.
- Oherwydd natur achlysurol y math hwn o ddarpariaeth, does dim llefydd gwag a dim rhestrau aros ac felly mae cyfleoedd i bob plentyn fynychu.
- Cryfderau cymunedol cryf a chefnogaeth gan gynghorau tref a chymuned; 2
- Hanes 1 flwyddyn o waith partneriaeth yn yr awdurdod lleol;
- Staff sydd wedi'u hyfforddi yn dda a rheolaeth a goruchwyliaeth profiadol;
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer y tîm tymhorol;
- Cysylltiadau da â phartneriaid atgyfeirio ar gyfer grwpiau anabledd a diamddiffyn e.e. Action for Children a gwasanaethau Anabledd Integredig Plant.
- Y gymuned yn nodi lle dylid darparu'r gwasanaethau lleol. Hefyd, mae gofyniad blynyddol i gofnodi, monitro a gwerthuso'r gwasanaeth gan arwain at welliant a datblygiad cyson wrth gydymffurfio â Mesur Plant a Theuluoedd Cymru (2010);
- Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu cyllideb craidd trwy gyflogi Swyddog Datblygu Chwarae sy'n cydlynu rhaglen yr haf ac yn nodi ffynonellau cyllid eraill i ddarparu ar gyfer cyflwyno cynllun chwarae'r haf.
- Eiriolaeth barhaus a chryf ar gyfer y gwasanaeth.

Gwendidau:

- Mae caledi wedi cael effaith ar y cyllid sydd ar gael i ddarparu cynlluniau chwarae mynediad agored.
- Er bod galw am y gwasanaeth, mae wedi gorfod lleihau o ran nifer yr wythnosau a lleoliadau ar gyfer cynllun chwarae'r haf. Mae cyllidebau dan bwysau ym mhob maes yn yr awdurdod lleol a phartneriaid ariannu, yn enwedig cynghorau tref a chymuned lleol. Mae dibyniaeth ar gyllid allanol sydd ynddo'i hun dan bwysau cynyddol.
- Mae'r grantiau a chymorth ariannol oedd ar gael yn flaenorol, h.y. Teuluoedd yn Gyntaf, rŵan yn canolbwyntio ar y rhai mewn angen mwyaf, ac nid ydynt ar gael i gefnogi gwasanaethau cyffredinol. Nodwch, ar gyfer lleoliadau cynhwysol bod angen gwasanaeth cyffredinol ar gyfer gwasanaethau wedi'u targedu.
- Mae lleoliadau cyfrwng Cymraeg cyfyngedig gyda'r holl leoliadau eraill wedi'u rhestru fel Saesneg yn unig.

6.7 Nani

6.7.1. Dadansoddiad o Gyflenwad Darpariaeth Gofal Plant

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni a gwblhawyd gan Nanis a gymeradwywyd dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ystod Gorffennaf 2016. O'r pum Nani a arolygwyd, ymatebodd dau gan roi cyfradd ymateb o 40%.

- **Ystod o wasanaethau a ddarperir** – Roedd un yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau ac roedd y llall yn darparu gofal dydd llawn yn unig.
- **Nifer a math o lefydd gofal plant a lenwyd (llawn amser, rhan amser, achlysurol)** – ni chasglwyd digon o ddata
- **Nifer o lefydd sydd wedi'u llenwi gan blant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd** - 1 lle
- **Nifer y llefydd iaith Gymraeg a lenwyd** – ni ymatebodd unrhyw ddarpariaeth Gymraeg
- **Llefydd gwag a rhestrau aros** – dim llefydd gwag a dim rhestrau aros
- **Oriau agor, gan gynnwys y nifer sy'n cynnig oriau gofal plant hyblyg** – dechreuodd 1 Nani cyn 8am yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol, ac roedd y Nani arall yn gweithio ar ôl 6pm ac yn cynnig gofal dros nos.
- **Ystod hyd y sesiwn** – ni chasglwyd digon o ddata
- **Ystod oedran y plant** – roedd y Nanis yn darparu ar gyfer pob ystod oedran yn yr asesiad
- **Ystod ffioedd** – roedd cyfradd fesul awr un Nani ym amrywio o £9.00 i £10.00 yr awr a'r Nani arall yn codi cyfradd dyddiol o £71.95

6.7.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Dim ond 2 Nani o'r Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol a gwblhaodd a dychwelodd eu Holiaduron Darparwyr, ac o ganlyniad ni allwn ddarparu dadansoddiad ystyrlon gyda sampl mor fychan o ddata.

Nid oes gan Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint wybodaeth am Nanis o'r Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol, ond bydd rhieni sy'n holi am Nanis yn cael rhestr manylion cyswllt cyfredol o ddarparwyr yn yr Awdurdod Lleol a'u hannog i gysylltu â'r rhai ar y Cynllun Cymeradwyaeth Gwirfoddol.

7. Deall Anghenion Rhieni/Gofalwyr

7.1 Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Statws	Nifer
Rhiant/Gofalwr mewn gwaith (ddim yn disgwyl babi)	128
Rhiant/Gofalwr mewn addysg neu hyfforddiant (ddim yn disgwyl babi)	4
Rhiant/Gofalwr yn ceisio gwaith (ddim yn disgwyl babi)	2
Rhiant/Gofalwr yn ceisio addysg neu hyfforddiant (ddim yn disgwyl babi)	0
Yn disgwyl babi neu ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth gyda phlentyn <u>cyntaf</u>	6
Mabwysiadu plentyn <u>cyntaf</u>	1
Rhiant/gofalwr yn disgwyl babi neu ar gyfnod mamolaeth/tadolaeth gyda phlant ychwanegol	18
Mabwysiadu neu ar absenoldeb mamolaeth gyda <u>phlant ychwanegol</u>	0
Rhiant/Gofalwr ddim mewn gwaith	10
Rhiant/Gofalwr ddim mewn addysg na hyfforddiant	0

Ymatebwyr yn ôl incwm blynyddol yr aelwyd

Incwm Cyfartalog Blynyddol Aelwydydd	Nifer
£0-£10,000	7
£10,001-£20,000	14
£20,001-£30,000	11
£30,001-£40,000	20
£40,001-£50,000	18
£50,001-£60,000	11
£60,001-£70,000	13
£70,000+ y flwyddyn	4
<u>Mae'n well gen i beidio â dweud</u>	16

Ymatebwyr yn ôl Grŵp Ethnig

Grŵp Ethnig	Nifer
Gwyn	112
Grwpiau ethnig cymysg / lluosog	0
Asiaidd /Prydeinig Asiaidd	0
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	0
Grŵp Ethnig Arall	0

laith yr Ymatebwyr (prif iaith a siaradir yn y cartref)

laith	Nifer
Cymraeg yn unig	1
Saesneg yn unig	65
Dwyieithog	11
Ieithoedd Eraill	1

Plant yr ymatebwyr yn ôl grŵp oedran

Oed	Nifer
O dan 12 mis	22
12-18 mis	20
19-23 mis	20
2 oed	36
3 oed	30
4 oed	29
5-7 oed	47
8-11 oed	42
12-14 oed	14
15-17 oed	12

Ymatebwyr gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd.

Anghenion Addysgol Arbennig / Anabledd	Nifer
Iaith a Lleferydd	31
Anawsterau Dysgu Penodol (dyslecsia)	31
Anawsterau clyw	29
Anawsterau dysgu	29
Anawsterau golwg	26
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	29

Corfforol	30
Cyflwr Meddygol	39
Arall (nodwch)	35

7.2 Defnydd Gofal Plant Presennol

7.2.1. Dadansoddiad o Ddefnydd Presennol y Ddarpariaeth Gofal Plant

Gyda chyfradd ymateb o 171 o rieni / gofalwyr a diffyg amlwg o ddealltwriaeth o rai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn arwain at ymatebwyr yn peidio ateb rhai adrannau, mae'r wybodaeth y gellir ei chael o'r dadansoddiad hwn yn gyfyngedig ac ni fydd o reidrwydd yn cynrychioli'r farchnad gofal plant cyfan yn Sir y Fflint.

- **Ystod o wasanaethau sy'n cael eu defnyddio**

Roedd mwy o ymatebion o Ardal 4 (CH7) nag unrhyw ardal arall yn Sir y Fflint. Y mathau mwyaf poblogaidd o ofal plant sy'n cael eu defnyddio yn y sir yn ystod y tymor oedd meithrinfeydd gofal dydd ac yna clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast ac yna gwarchodwyr plant. Roedd ychydig o ymatebwyr eraill yn defnyddio gofal sesiynol, gan gynnwys Dechrau'n Deg a llefydd Addysg Blynnyddoedd Cynnar. Yn ystod gwyliau'r ysgol, meithrinfeydd gofal dydd oedd y dewis mwyaf poblogaidd eto, ac yna gwarchodwyr plant a wedyn clybiau gwyliau. Dim ond chwech rhiant wnaeth ymateb gan nodi eu bod yn defnyddio cynlluniau chwarae. Dangosodd yr ymatebion ffafriaeth am sesiynau bore ym mhob math o leoliadau gofal plant.

- **Nifer a math o lefydd gofal plant a ddefnyddir (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Nododd pob math o ddarpariaeth gofal plant ledled y sir bod y mwyafrif o lefydd gofal plant yn cael eu derbyn ar sail rhan amser. O'r holl rieni / gofalwyr a arolygwyd, dim ond 18 o blant wnaeth dderbyn llefydd llawn amser, gyda'r mwyafrif mewn lleoliadau gofal diwrnod llawn. Dim ond tri rhiant oedd yn defnyddio ffrindiau a theulu ar gyfer gofal plant llawn amser. Cymerodd y plant oedd yn rhoi cyfrif am y llefydd rhan amser lawer mwy o lefydd, yn enwedig rhai o oedran ysgol. Dim ond pedwar o blant oedd yn defnyddio gofal plant yn achlysurol

- **Nifer o lefydd sydd eu hangen ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Roedd gan 25 o ymatebwyr blant ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol ac o'r rheiny dim ond wyth oedd yn defnyddio llefydd gofal plant. Gofynnwyd i rieni pam nad oeddent yn defnyddio gofal plant ac mae'n galonogol bod neb wedi ateb o dan y cwestiwn 'Nid oes gofal plant sy'n darparu ar gyfer fy mhleintyn/plant'.

- **Nifer o lefydd a ddefnyddir yn ôl categori iaith.**

Yn ystod y tymor, defnyddiodd 19% o ymatebwyr ofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd y mwyafrif o'r rhain yn defnyddio llefydd ar ôl ysgol a chlwb brecwast. Roedd 45% o'r ymatebwyr yn defnyddio darpariaeth Saesneg gyda'r 36% sy'n weddill yn defnyddio darpariaeth dwyieithog. Yn ystod gwyliau'r ysgol, dim ond 7% o ymatebwyr oedd yn defnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd y rhain i gyd mewn cynlluniau chwarae. O'r ymatebwyr sy'n weddill, roedd bron i 50% yn defnyddio darpariaethau dwyieithog a 43% yn defnyddio darpariaeth Saesneg yn unig.

- **Ystod oedran y plant sy'n defnyddio / ddim yn defnyddio gofal plant**

O'r holl arolygon, roedd 7 o blant 15-17 oed a doedd dim un o'r rhain yn defnyddio unrhyw fath o ofal plant. Hefyd, dim ond saith o blant dan 12 mis oed oedd yn defnyddio gofal plant ac roedd y rhain i gyd gyda gwarchodwyr plant neu ddarpariaeth gofal dydd llawn. Roedd ystod oedran y plant sy'n defnyddio gwarchodwyr plant wedi'i rannu yn gytbwys. Roedd yr holl blant sy'n mynd i ofal dydd llawn yn amrywio rhwng plant dan 12 mis oed a 4 oed gyda'r mwyafrif helaeth yn 2 neu 3 oed. Roedd nifer isel iawn o ymatebwyr yn defnyddio gofal sesiynol, gyda'r mwyafrif yn 2 neu 3 oed. O'r plant sydd ddim yn defnyddio gofal plant, roedd y mwyafrif helaeth yn 4 i 11 oed. Dim ond un plentyn 3 oed oedd ddim yn defnyddio gofal plant a gall hyn fod oherwydd y defnydd rhagorol o lefydd Addysg Blynyddoedd Cynnar yn yr awdurdod.

- **Rhesymau dros ddefnyddio / ddim defnyddio gofal plant**

Y prif reswm a roddwyd dros ddefnyddio gofal plant oedd ar gyfer cyflogaeth. Dewisodd 7 ymatebwr 'Fanteision cymdeithasol neu ddysgu ar gyfer fy mhleintyn/plant' fel y ffactor dros benderfynu defnyddio gofal plant. Dewisodd 7% o ymatebwyr ddefnyddio gofal plant er mwyn manteisio ar hawliau trwy ddarpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar neu Ddechrau'n Deg. Y rheswm mwyaf poblogaidd dros beidio defnyddio gofal plant oedd 'Mae fy mhartner/teulu/ffrindiau yn gwarchod fy mhlant'. A'r ymateb mwyaf poblogaidd nesaf oedd bod 'Gofal plant yn rhy ddrud' yn holl ardaloedd y sir. Rhesymau poblogaidd eraill a roddwyd dros beidio defnyddio gofal plant oedd 'Mae fy mhlant yn ddigon hen i edrych ar ôl

eu hunain' a bod un rhiant yn aros gartref. Mewn perthynas â 'gofal plant ddim ar gael pan fo'i angen', dywedodd bron i 6% nad oedd gofal plant ar gael cyn 8am ac roedd nifer tebyg yn methu dod o hyd i ofal plant ar ôl 6.00pm. Dywedodd dau ymatebwr nad oedd gofal dros nos ar gael ac nid oedd tri yn gallu dod o hyd i ddarpariaeth gofal plant addas ar y penwythnos.

- **Hygyrchedd/argaeledd a fforddiadwyedd darpariaeth gofal plant**

Y prif reswm a roddwyd mewn perthynas â gwelliannau ar gyfer darpariaeth gofal plant oedd i'w wneud yn fforddiadwy yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd argaeledd gofal plant cyn 8.00am ac ar ôl 6.00pm, drwy gydol y flwyddyn, yn ymateb cyffredin arall, yn enwedig yn Ardal 4 (CH7). Nododd 26 o'r ymatebwyr o bob ardal yr angen am fwy o ddarpariaeth cyn ysgol, 7.30am i 9.00am. Roedd 20 o ymatebwyr ledled yr awdurdod yn teimlo'r angen am fwy o ddarpariaeth ar ôl ysgol hyd at 6pm. Cofnodwyd argaeledd gofal plant cyfrwng Cymraeg fel problem yn bennaf ym Mwcle a'r Wyddgrug, yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Dewisodd 10 o ymatebwyr argaeledd gofal plant dwyieithog ac roedd y rhain wedi'u rhannu yn ddaearyddol ledled y sir. Hefyd, nodwyd yr angen am fwy o lefydd gofal dydd llawn rhwng 8am a 6pm gyda 10% o ymatebwyr eisiau'r ddarpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol yn arbennig.

- **Barn rhieni ar y gofal plant sy'n cael ei gynnig**

Dim ond dau riant oedd yn ddim yn fodlon gydag ansawdd eu gofal plant yn ystod y tymor, ond roedd deuddeg yn anfodlon gydag ansawdd eu darpariaeth yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd 55% o'r ymatebwyr yn teimlo bod yna ddewis da o ofal plant ar gael ond, dim ond 36% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo bod gofal plant ar gael ar yr adeg y mae ei angen. Dim ond 72% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo bod gofal plant wedi'i leoli yn dda. Roedd 67% o'r ymatebwyr yn anghytuno nad oedd gofal plant ar gael ar gyfer oedran eu plentyn. Roedd 85% o'r ymatebwyr yn cytuno bod gofal plant yn diwallu anghenion eu plentyn. Hoffai 29% o'r ymatebwyr i'w plentyn/plant fynychu mwy o ofal plant cofrestredig (cynnydd mewn oriau). Mae 79% yn credu bod gofal plant yn rhy ddrud. Byddai'n well gan 36% ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant. Roedd gan 14% broblemau gyda threfniadau gofal plant sy'n torri i lawr neu'n annibynadwy. Dim ond 17% ddywedodd bod diffyg gofal plant yn rhwystr iddynt gael gwaith neu hyfforddiant. Roedd 63% yn gwybod lle i ddod o hyd i wybodaeth am ofal plant a dim ond ychydig y cant yn llai oedd yn gwybod lle i ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant. Roedd 30% o ymatebwyr yn credu bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ac roedd 71% yn credu bod digon o ofal plant ar gael yn yr iaith o'u dewis nhw. Mae barn rhieni ar y gofal plant sydd ar gael ar hyn o bryd yn dueddol o fod yn gyson ar draws Sir y Fflint heb unrhyw faterion amlwg yn ymwneud ag un ardal ddaearyddol.

7.2.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- O'r rhieni sydd â phlentyn/plant gydag anabledd neu anghenion addysgol ychwanegol, roedd pob un sy'n dymuno defnyddio gofal plant yn gallu dod o hyd i leoliad addas i ddiwallu anghenion eu plentyn.
- Mae gofal plant mewn lleoliad da ac yn diwallu anghenion y mwyafrif o rieni.
- Mae gofal plant yn ddibynadwy yn gyffredinol.
- Mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn credu bod darpariaeth gofal plant o ansawdd da, yn enwedig yn ystod y tymor.

Gwendidau:

- Mae'r sampl bychan o ymatebion i'r arolwg rhieni yn ei gwneud yn anodd darparu unrhyw ddadansoddiad ystyrlon
- Mae 36% o'r ymatebwyr yn cytuno nad yw gofal plant ar gael ar yr adegau y maent ei angen a nodwyd hyn fel rheswm dros beidio defnyddio gofal plant. Hoffai ymatebwyr bod mwy o ofal plant ar gael cyn 8am (yn enwedig clybiau brecwast) ac ar ôl 6pm ac am oriau hirach yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd lleiafrif bychan iawn eisiau gofal dros nos neu ar benwythnos.
- Roedd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr yn teimlo bod y dewis o ofal plant sydd ar gael yn gyfyngedig.
- 'Mae gofal plant yn rhy ddud' oedd un o'r rhesymau mwyaf poblogaidd dros beidio defnyddio gofal plant ac roedd 79% o'r rhai oedd yn ymateb i'r gwelliannau sydd eu hangen i ofal plant yn cytuno.
- Nid yw traean o'r ymatebwyr yn gwybod lle i fynd i gael gwybodaeth gofal plant a chael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant.
- Nid oes digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael.

7.3. Y Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant

7.3.1. Dadansoddiad o'r Galw am Ddarpariaeth Gofal Plant

Gyda chyfradd ymateb o 171 o rieni / gofalmwyr a diffyg amlwg o ddealltwriaeth o rai o'r cwestiynau a ofynnwyd yn arwain at ymatebwyr yn peidio ateb rhai adrannau, mae'r wybodaeth y gellir ei chael i'r dadansoddiad hwn yn gyfyngedig ac ni fydd o reidrwydd yn cynrychioli'r farchnad gofal plant cyfan yn Sir y Fflint.

- **Ystod o wasanaethau sydd eu hangen**

Nododd 74 o ymatebwyr bod ganddynt angen llefydd gofal plant yn y dyfodol. Yn yr awdurdod cyfan, roedd y gofynion am lefydd yn y dyfodol fel a ganlyn: 16 o warchodwyr plant, 30 gofal dydd llawn, 8 gofal dydd sesiynol, 1 creche, 13 gofal y tu allan i'r ysgol a 6 darpariaeth chwarae mynediad agored. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr sydd angen gwarchodwr plant neu ofal dydd llawn eisiau darpariaeth diwrnod llawn; roedd y rhai oedd angen gofal dydd sesiynol angen sesiynau bore, ac roedd y rhai oedd angen gofal y tu allan i'r ysgol eisiau rhaniad cytbwys o ddarpariaeth cyn ac ar ôl ysgol.

- **Nifer a math o lefydd gofal plant sydd eu hangen (llawn amser, rhan amser, achlysurol)**

Roedd yn ymddangos mai dim ond 24 o lefydd yn y dyfodol oedd eu hangen oherwydd bod y rhieni heb lenwi'r arolwg yn gywir. Dim ond y nifer llefydd oedd eu hangen wnaeth y mwyafrif ei ddarparu, ac ni nodwyd pa fath o ofal plant fyddai ei angen ac a fyddai'r lle yn un llawn amser, rhan amser neu achlysurol.

- **Nifer o lefydd sydd eu hangen ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd.**

Dim ond un lle oedd ei angen ar gyfer plentyn ag anabledd neu anghenion dysgu ychwanegol.

- **Nifer o lefydd sydd eu hangen yn ôl categori iaith.**

O'r 74 o ymatebwyr oedd angen llefydd gofal plant ychwanegol, ni nodwyd ffafriaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg o unrhyw fath a dim ond un rhiant ofynnodd am le mewn clwb ar ôl ysgol a lle mewn clwb gwyliau trwy gyfrwng iaith arall (heb ei nodi). Gofynnodd 32 (43%) am ddarpariaeth Saesneg a gofynnodd 40 (54%) am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

- **Amseroedd gofal plant, gan gynnwys y nifer sydd angen oriau gofal plant hyblyg a sesiynau o hyd amrywiol**
Roedd angen y mwyafrif helaeth o lefydd gofal plant rhwng 8am a 6pm. Doedd dim gofyniad am ofal plant ar ôl 6pm, ar y penwythnos na dros nos. Gofynnodd nifer fechan am ofal cyn ac ar ôl oriau ysgol.
- **Ystod oedran y plant y mae angen gofal plant ar eu cyfer**
Unwaith eto, ni wnaeth y rhieni/gofalwyr gwblhau'r adran hon yn gywir felly dim ond sampl bychan o rieni wnaeth gwblhau'r ystod oedran. Nododd ychydig oedran eu plentyn, gyda'r mwyafrif dan ddeuddeg mis a'r gweddill o dan oedran ysgol.
- **Ffactorau pwysig wrth fwriadu defnyddio gofal plant**
Wrth ddewis gofal plant, mae 66% o ymatebwyr yn ystyried fforddiadwyedd fel ffactor pwysig. Ffactorau eraill a ystyrir gan rieni yw 'gofal plant o ansawdd da' (59%), 'agos at adref' (39%), 'Ar ôl ysgol/yn ystod y gwyliau' (39%), 'cyfleoedd chwarae' (32%), 'yn agos at ysgol y plentyn' (30%), 'oriau hyblyg/achlysurol' (24%), 'taliadau hyblyg' (22%), 'dewis o wahanol fathau o ofal plant' (16%), 'cyfrwng Cymraeg a Saesneg' (16%), 'cyfleoedd cymdeithasol' (16%), 'cyfrwng Cymraeg' (15%), 'Cludiant' (15%) a 'dewis iaith' (13%). Dim ond 3 rhiant (4%) oedd yn ystyried 'Darpariaeth ar gyfer anghenion addysgol ychwanegol / anabled' yn ffactor pwysig yn eu dewis o ofal plant.

7.3.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Gan ystyried y sampl bychan o rieni a gwblhaodd yr arolwg a'r modd anghyson y maent wedi llenwi rhai o'r cwestiynau, mae'n anodd sicrhau unrhyw ddadansoddiad ystyrion o'r data a gasglwyd. Mae'n ymddangos bod y mwyafrif o rieni angen naill ai gofal dydd llawn neu lefydd gyda gwarchodwr plant gyda nifer llai angen llefydd Gofal Dydd Sesiynol neu lefydd y tu allan i'r ysgol. Er bod rhai o'r ymatebwyr sy'n defnyddio gofal plant ar hyn o bryd wedi dweud eu bod angen gofal plant ar wahanol adegau o'r dydd, nid oedd hyn wedi'i adlewyrchu yn eu gofynion gofal plant i'r dyfodol ac nid oedd unrhyw gais am amseroedd darpariaeth cynnar neu hwyr neu ddarpariaeth ar benwythnos a dros nos. Nid oedd unrhyw ofyniad am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

7.4. Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

7.4.1. Hygyrchedd Darpariaeth Gofal Plant

- *Roedd y mwyafrif o fudd-ddeiliaid o'r farn bod ansawdd, ystod, argaeledd, lleoliad ac addasrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint yn dda ar y cyfan, ac mewn rhai achosion mae'n rhagorol. Cydnabyddir arfer da a gwaith ar y cyd ar draws yr awdurdod.*
- *Credir bod fforddiadwyedd a hyblygrwydd y ddarpariaeth gofal plant yn foddhaol, er y cyfeirir at y ddau beth gan rieni a chyflogwyr fel rhwystrau i ddefnyddio gofal plant.*
- *Mae PACEY Cymru yn credu bod Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd gwarchodwyr plant wrth gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal plant digonol, hygyrch ac o ansawdd ar gyfer teuluoedd ledled y sir, gan gynnwys darparu oriau anghymdeithasol ar gyfer rhieni sy'n gweithio.*
- *Y farn gyffredinol yw bod darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn foddhaol ar ei orau.*
- *Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd ledled Cymru gan Clybiau Plant Cymru, roedd 35% o ymatebwyr yn dymuno rhagor o ofal yn y gwyliau, nododd 30% nad oedd gofal addas ar gael yn y gwyliau, a nododd 17% bod cost yn rwystr iddynt gael gofal plant.*
- *Nododd pob budd-ddeiliad bwysigrwydd cyllid parhaus i gynnal y ddarpariaeth gofal plant presennol a chreu darpariaeth newydd lle bo angen.*
- *Ledled Cymru, mae cyfraddau llenwi meithrinfeydd diwrnod llawn wedi gostwng o 69% yn 2015 i 67% yn 2016 ac mae cynaladwyedd yn broblem gyda chostau cynyddol a hyder cyfyngedig i gynnal busnes.*
- *Nododd 41% o'r cyflogwyr lleol bod ganddynt broblemau recriwtio a chadw oherwydd gofal plant a bod y cyflogwyr hyn yn cyflogi gweithwyr shifft ac yn disgwyl i staff weithio ar benwythnosau.*

7.4.2. Rhwystrau a brofir gan grwpiau targed penodol

(i) Rhieni sy'n Gweithio

- Nid yw nifer fechan o leoliadau gofal plant wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) felly nid yw rhieni yn gallu cael mynediad at elfen gofal plant y credydau treth gwaith, neu ddefnyddio'r cynlluniau talebau gofal plant (fydd yn cael eu disodli gan y cynllun Gofal Plant Di-dreth cenedlaethol yn fuan). Felly, mae lleoliadau heb gofrestru angen hyfforddiant a chefnogaeth digonol i'w galluogi i gofrestru gydag AGGCC.
- Mae'r asesiad hwn wedi tynnu sylw at y ffaith mai diffyg hyblygrwydd a fforddiadwyedd gofal plant yw'r prif rwystrau a brofir gan rhieni sy'n gweithio, yn enwedig y rhai hynny sy'n gweithio oriau anghyffredin fel gweithwyr shift a'r rhai sy'n gweithio ar benwythnosau neu dros nos.
- Nid yw rhieni sy'n gweithio ac angen darpariaeth gofal diwrnod llawn yn gallu cael mynediad at unrhyw ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
- Mae fforddiadwyedd gofal plant yn bryder allweddol ar gyfer rhieni sy'n gweithio a'r rhai sy'n ystyried dychwelyd i'r gwaith neu addysg. Bydd cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 a 4 oed yn helpu llawer o'r teuluoedd hyn sy'n gweithio.

(ii) Rhieni sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant

- Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn darparu cyllid ar gyfer gofal plant i gefnogi rhieni/gwarcheidwaid sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd hyfforddiant pan mai gofal plant yw'r prif rwystr.

(iii) Aelwydydd Di-waith

- Ni wnaeth unrhyw fudd-ddeiliaid gyfeirio at hyn fel rhwystr oherwydd nad yw'r mwyafrif o aelwydydd di-waith yn defnyddio gofal plant, ar wahân i'r rheiny sy'n gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg neu Addysg Blynnyddoedd Cynnar a ariennir.

(iv) Teuluoedd ag Incwm Isel

- Mae fforddiadwyedd yn rhwystr i deuluoedd ar incwm isel a chroesawodd rhai budd-ddeiliaid ymrwymiad parhaus Sir y Fflint i ddarparu cyllid Llefydd a Gynorthwyr.
- Gall y broses weinyddol weithiau oedi neu eithrio rhai teuluoedd ar incwm isel rhag gwneud cais am gyllid neu greydau treth. Dylai cefnogaeth i gwblhau'r ceisiadau hyn fod ar gael i bawb.

(v) Teuluoedd rhiant sengl

- Ni chyfeiriodd unrhyw fudd-ddeiliaid at hyn fel rhwystr i gael gofal plant ond gallwn gymryd yn ganiataol y bydd y mwyafrif o rieni sengl yn profi yr un rhwystrau â theuluoedd incwm isel, fel yr amlinellwyd uchod.

(vi) Teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

- Gall y broses weinyddol oedi neu eithrio rhai teuluoedd o gefndiroedd lleiafrif ethnig rhag gwneud cais am gyllid neu greydau treth. Dylai cefnogaeth i gwblhau'r ceisiadau hyn fod ar gael i bawb.

(vii) Teuluoedd gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd.

- Ni nodwyd hyn gan unrhyw fudd-ddeiliaid fel rhwystr oherwydd bod darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledd yn dda iawn yn Sir y Fflint Mae cefnogaeth ariannol ar gael trwy grantiau Dwylo Ychwanegol i gyflogi staff ychwanegol i integreiddio'r plant hyn yn y lleoliad.

8. Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen) a Darpariaeth Dechrau'n Deg

8.1. Dadansoddiad o Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar (Cyfnod Sylfaen)

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd gan ddarparwyr Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar yn ystod wythnos 1 i 5 Awst 2016.

- **Nifer y darparwyr gofal plant (a ddadansoddwyd dan Ofal Dydd Llawn/Meithrinfa, Gofal Dydd Sesiynol, Gwarchodwyr Plant), a ariennir i ddarparu Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar.**

Ar hyn o bryd mae gan Sir y Fflint 60 o ddarparwyr gofal plant a ariennir i ddarparu addysg Blynyddoedd Cynnar; o'r rhain mae 22 wedi'u cofrestru fel gofal diwrnod llawn a 38 wedi'u cofrestru fel gofal sesiynol. Ar hyn o bryd, nid ydym yn defnyddio gwarchodwyr plant i ddarparu Addysg Blynyddoedd Cynnar yn Sir y Fflint. Mae Darparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar wedi'u dosbarthu drwy holl ardaloedd Sir y Fflint. Mae gennym 7 darparwr sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Nhreffynnon, Picton, Treuddyn, yr Wyddgrug, y Fflint, Garden City a Shotton.

- **Nifer yr ysgolion a ariennir i ddarparu Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar.**

Ar hyn o bryd, mae 21 o leoliadau a gynhelir mewn ysgolion ALI gyda dosbarthiadau meithrin yn darparu Addysg Blynyddoedd Cynnar. Does dim ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cynnal darpariaeth wedi'i gynnal, ond mae pedair ysgol yn darparu Addysg Gynnar ar y safle trwy ddarpariaeth nad yw wedi'i gynnal.

- **Proffil presenoldeb plant sy'n mynychu darpariaeth (darparwyr gofal plant ac ysgolion)**

Mae defnydd cyffredinol y llefydd yn dda iawn a darperir ar gyfer yr holl blant sy'n gwneud cais am le. Mae'r mwyafrif o'r llefydd hyn yn cael eu derbyn mewn lleoliadau na gynhelir.

- **Proffil presenoldeb wythnosol y plant sy'n mynychu darpariaeth a ariennir gan ddarparwyr gofal plant**

Mae'r nifer plant sy'n mynychu darpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar yn ddebyg iawn ganol wythnos ond mae'n is yn gyffredinol ar ddydd Llun ac yn is eto ar ddydd Gwener. Gall y ffigurau hyn ar gyfer dechrau a diwedd wythnos fod wedi'u priodoli i'r ffaith bod darparwyr yn gweithredu dros wythnos fyrrach.

- **Nifer y llefydd gofal plant wedi'u llenwi, eu hangen ac ar gael**

Yn haf 2016 roedd 1105 o lefydd Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gael yn Sir y Fflint; mae 985 o'r llefydd hyn mewn lleoliadau gofal plant a tua 120 mewn ysgolion ALI. Mae derbyniad y llefydd hyn yn amrywio o tua 45% yn nhymor yr hydref i 77% yn nhymor yr haf pan mae'r nifer uchaf o blant cymwys. Mae derbyniad llefydd yn cael ei fonitro yn ôl ardal ddaearyddol fesul tymor ac mae wedi bod yn gyson ers nifer o flynyddoedd. Bydd lleoliadau gofal plant ychwanegol ond yn cael eu cymeradwyo i ddarparu Addysg Blynyddoedd Cynnar lle mae'r angen wedi'i nodi mewn ardal ddaearyddol i sicrhau bod llefydd digonol, a chadw llefydd dros ben i'r isafswm i sicrhau cynladwyedd lleoliadau ac ysgolion.

- **Nifer o rieni sydd ddim yn hawlio eu lle am ddim a'u rhesymau**

Nododd ychydig dros 5% o ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn hawlio eu lle am ddim i Addysg Blynyddoedd Cynnar. Y prif reswm dros hyn oedd bod eu plentyn eisoes mewn addysg llawn amser, doedd un rhiant ddim yn gwybod am yr hawl ac roedd gan ddau arall blant oedd ddim yn ddigon hen i fynychu.

- **Gofal plant sydd ei angen gan rieni i'w galluogi i hawlio yn llawn**

Dim ond tri rhiant nododd bod ganddynt ofynion gofal plant ychwanegol i'w galluogi i hawlio yn llawn. Roedd un rhiant eisiau darpariaeth ar ôl ysgol ac roedd dau arall eisiau clwb brechwast. Rydym yn ymwybodol bod rhai teuluoedd yn methu cael darpariaeth mewn dosbarthiadau meithrin ALI os nad oes darpariaeth cofleidiol ar y safle, oherwydd eu bod angen gofal dydd llawn am oriau hirach. Mae nifer o'n darparwyr gofal plant wedi ymestyn eu horiau ac mae rhai yn y broses o gofrestru darpariaeth newydd ar ôl ysgol er mwyn diwallu'r angen hwn.

8.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Yn Sir y Fflint mae ystod dda o ddarparwyr Addysg Blynyddoedd Cynnar fel y gall rieni ddewis y math sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion.
- Mae gan Sir y Fflint drefniadau trawsffiniol gyda'r pedwar awdurdod cyfagos (yng Nghymru a Lloegr) fel y gall rieni gael darpariaeth dros y ffin os yw hyn yn fwy cyfleus.
- Mae darpariaeth gyda darparwyr gofal plant yn hyblyg iawn; dau yw'n isafswm nifer o sesiynau y mae'n rhaid eu cymryd er mwyn hawlio'r cyllid a gall y nifer hwn gynyddu i ddiwallu patrymau gwaith rhieni a gall ddiwrnodau'r wythnos newid i ddarparu ar gyfer gwaith shift.
- Mae'r defnydd o lefydd Addysg Blynyddoedd Cynnar yn dda iawn.

- Doedd gan y mwyafrif helaeth o rieni ddim gofynion ar gyfer cefnogaeth ychwanegol i dderbyn eu hawl

Gwendidau:

- Does dim hyblygrwydd mewn ysgolion ALI lle mae'n rhaid i blant fynychu naill ai pum sesiwn bore neu bum sesiwn prynhawn.
- Does dim darpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar a gynhelir mewn ysgolion cynradd Cymreig

8.3. Dadansoddiad o Ddarpariaeth Dechrau'n Deg

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd gan ddarparwyr Addysg Rhan Amser Blynyddoedd Cynnar yn ystod wythnos 1 i 5 Awst 2016. Mae ardaloedd y rhaglen yn cynnwys Higher Shotton, Aston, Sealand, ward ganolog Cei Connah, Bryn Gwalia yn yr Wyddgrug, y Fflint, ward canolog Treffynnon, Greenfield, Queensferry, Mancot a ward Golftyn Cei Connah.

- **Nifer y darparwyr gofal plant (a ddadansoddwyd dan Ofal Dydd Llawn/Meithrinfa, Gofal Dydd Sesiynol, Gwarchodwyr Plant), a ariennir i ddarparu Dechrau'n Deg, gan gynnwys darpariaeth Dechrau'n Deg yn unig.**

Nid oes gan Sir y Fflint unrhyw ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn unig. Mae 42 o ddarparwyr gofal plant wedi'u hariannu ar hyn o bryd i ddarparu Dechrau'n Deg yn yr ardaloedd dynodedig. Mae'r darparwyr hyn yn cynnwys 14 o leoliadau gofal plant, 12 o Feithrinfeydd Dydd, 1 Creche a 15 o gylchoedd chwarae. Mae pedwar o'r lleoliadau hyn yn ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg ac wedi'u lleoli yn yr Wyddgrug, y Fflint, Treffynnon a Garden City. O'r 42 o ddarparwyr Dechrau'n Deg, cwblhaodd 40 ohonynt y SASS ar-lein yn llwyddiannus

- **Proffil presenoldeb wythnosol y plant sy'n mynychu darpariaeth Dechrau'n Deg**

Mae'r mwyafrif o ddarparwyr gofal dydd llawn a'r creche yn gweithredu dros bum niwrnod, ac mae'r darparwyr gofal dydd sesiynol yn cynnwys cyfuniad o bedwar neu bump sesiwn yr wythnos. O'r 14 gwarchodwr plant, dim ond un gwarchodwr plant yn Sealand wnaeth ddewis darparu darpariaeth Dechrau'n Deg dros bum diwrnod, gyda'r lleill yn darparu'r gwasanaeth dros ddau i bedwar diwrnod yr wythnos.

- **Nifer y llefydd a lenwyd ac sydd eu hangen**

Mae llefydd bore yn fwy poblogaidd na llefydd prynhawn yn yr Awdurdod cyfan ac yn y gwahanol fathau o ddarpariaeth. Mae'r data SASS yn awgrymu bod lleoedd gwag ond ar gael ym mhump o'r lleoliadau ar hyn o bryd, ond mae hyn wedi'i wrthddweud yn y data gan fod dim ond dau leoliad yn nodi bod ganddynt restr aros ar gyfer lleoedd Dechrau'n Deg ac mae'r rheiny yng Ngheir Connah a Threffynnon. Gall ein tîm Dechrau'n Deg gadarnhau bod rhai plant Dechrau'n Deg ar y restr aros gyda darparwr (er enghraifft yn y Fflint) oherwydd bod teuluoedd ond yn fodlon derbyn y darparwr hwnnw, er bod llefydd gwag gyda darparwyr cymeradwy mewn llefydd eraill. Mae Dechrau'n Deg yn Sir y Fflint bob amser yn gofyn i rieni am ddau ddewis ar gyfer llefydd Dechrau'n Deg ac maent fel arfer yn gallu cynnig lle i bawb, er weithiau y gofynnir iddynt wneud trydydd dewis.

- **Mae nifer o rieni yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg, sy'n cael gofal plant am ddim**

Mae'r nifer sy'n derbyn llefydd, fel yn yr arolwg rhieni, ond yn 69%, ond mae'r rhesymau a roddir dros beidio derbyn gofal plant am ddim yn awgrymu nad yw'r rhan fwyaf o'r plant hyn yn gymwys. (Dim ond un ymatebwr oedd yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg oedd ddim yn gwybod am yr hawl.) Yn ôl y data a gyflenwyd i Lywodraeth Cymru, y nifer gwirioneddol o lefydd a gymerwyd yn 2015 / 2016 oedd 82%. O'u data eu hunain, mae Dechrau'n Deg Sir y Fflint wedi cyfrifo'r nifer sy'n derbyn fel 76% dros y pum tymor diwethaf.

- **Nifer y rhieni sydd ddim yn hawlio gofal plant am ddim a'u rhesymau**

O'r sampl o rieni a arolygwyd, dywedodd 13 nad oeddent yn defnyddio darpariaeth Dechrau'n Deg. Y prif reswm a roddwyd dros beidio derbyn gofal plant am ddim oedd nad oeddent yn gwybod am yr hawl, ond roedd pob un ond un o'r rhieni hyn yn byw y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg. Yn lleol, cofnodwyd y prif resymau dros beidio derbyn y gofal plant am ddim fel 'bod y plentyn eisoes yn mynychu darparwr nad yw'n Dechrau'n Deg' neu 'deuluoedd sy'n gyndyn o ymgysylltu â'r hawl'.

8.4. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Mae'r nifer sy'n derbyn lleoedd Dechrau'n Deg yn dda iawn ac mae llefydd fel arfer yn cael eu cymryd yn llawn amser ar ôl cyfnod setlo.

- Mae dewis rhieni yn eang oherwydd bod lleoliadau wedi'u rhannu yn ddaearyddol dros ardaloedd Dechrau'n Deg, ar wahân i yn Garden City a Bagillt.
- Mae Sir y Fflint yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg mewn Gofal Dydd Llawn, Gofal Dydd Sesiynol a lleoliadau Gwarchodwyr Plant, gan roi amrywiaeth dda o ddarpariaeth i rieni.
- Mae rhai lleoliadau yn cynnig hyblygrwydd gyda'r darpariaeth oriau ac yn darparu'r 12.5 awr dros llai o ddiwrnodau.
- O ddata lleol, rydym yn gwybod bod llefydd gwag ar gael yn y rhan fwyaf o leoliadau a bron dim rhestrau aros.
- Mae ymwybyddiaeth rhieni o'r hawl hwn yn uchel yn ardaloedd cod post dewisol Dechrau'n Deg

Gwendidau:

- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ond ar gael yn yr Wyddgrug, Treffynnon a Garden City.
- Nid yw'r darpariaethau Dechrau'n Deg mewn lleoliadau Gofal Dydd Sesiynol yn diwallu anghenion rhieni sy'n gweithio.
- Oherwydd y meini prawf cod post ar gyfer llefydd Dechrau'n Deg, mae rhai rhieni yn flin nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r hawl.

9 Darpariaeth Clwb Brecwast Am Ddim

9.1. Dadansoddiad o Ddarpariaeth Clwb Brecwast Am Ddim

Ardal	Enwau'r ysgolion	Lleoedd ar gael
Ardal 1	YSGOL GYNRADD PENYFFORDD	43
	YSGOL A GYNORTHWYIR PENTROBIN	34
	SALTNEY (YSGOL GYNRADD ST.ANTHONY)	48
	YSGOL GYNRADD SALTNEY FERRY	26
	YSGOL GYNRADD GOFFA SALTNEY WOOD	38
	YSGOL GYNRADD BROUGHTON	151
	Cyfanswm ARDAL 1	340
Ardal 2	CEI CONNAH (YSGOL GYNRADD BRYN DEVA)	71
	CEI CONNAU (YSGOL GYNRADD GOLFTYN)	90
	YSGOL GYNRADD EWLOE GREEN	Yn agor Clwb Brecwast gyda thâl yn Ebrill 2017
	YSGOL GYNRADD QUEENSFERRY	57
	YSGOL GYNRADD SANDYCROFT	77
	YSGOL GYNRADD SEALAND	48
	SHOTTON (ST. ETHELWOLD'S V.P.)	41
	SHOTTON (VEN. EDWARD MORGAN R.C.)	77
	SHOTTON (TY FYNNON - WELL HOUSE C.P.)	38
	Cyfanswm ARDAL 2	499
Ardal 3	Y FFLINT (YSGOL GYNRADD CORNIST)	82
	Y FFLINT (YSGOL CROES ATTI)	84
	Y FFLINT YSGOL GYNRADD GWYNEDD	136
	FLINT R.C. (ST.MARY'S)	25
	BAGILLT (YSGOL GLAN ABER)	30
	BAGILLT (YSGOL MERLLYN)	69

	Cyfanswm ARDAL 3	426
Ardal 4	BWCLE (YSGOL GYNRADD WESTWOOD)	25
	CAERWYS V.P.(YSGOL YR ESGOB)	28
	YSGOL GYNRADD LICSWM	14
	CILCAIN (YSGOL Y FOEL)	15
	TREUDDYN (YSGOL PARC Y LLAN)	44
	YSGOL GYNRADD GWERNAFFIELD (YSGOL Y WAEN)	25
	YR WYDDGRUG (YSGOL GLANRAFON)	59
	YR WYDDGRUG (BRYN GWALIA)	72
	YR WYDDGRUG (ST DAVIDS)	24
	YSGOL LEESWOOD	57
	RHOESMOR (YSGOL RHOS HELYG)	48
	NERCWYS V.P.	27
	YSGOL GYNRADD LLANEURGAIN (YSGOL OWEN JONES)	28
	YSGOL GYNRADD NORTHOP HALL	28
	YSGOL GYNRADD SYCHDYN	59
	Cyfanswm ARDAL 4	553
Ardal 5	MAES GLAS	79
	YSGOL GYNRADD TRELOGAN	22
	WHITFORD V.P.	42
	GWESPYR PICTON (YSGOL MORNANT)	18
	FFYNNONGROYW (YSGOL BRYN GARTH)	60

	YSGOL GYNRADD BRYNFFORDD	23
	HOLYWELL RC.(ST.WINEFRIDES R.C.)	35
	TREFFYNNON (MAES Y FELIN)	38
	MOSTYN (BRYN PENNANT)	63
	Cyfanswm ARDAL 5	380
Ardal 6	YSGOL GYNRADD HOPE	58
Ardal 6	YSGOL GYNRADD ABERMORDDU	45
	Cyfanswm ARDAL 6	103
Ardal 7		
	Cyfanswm ARDAL 7	0
Ardal 8	YSGOL GYNRADD GRONANT	14
	Cyfanswm ARDAL 8	14
	CYFANSWM	2,314

O'r 64 ysgol gynradd yn Sir y Fflint, mae 47 yn gweithredu'r ddarpariaeth clwb brecwast am ddim. O'r 47 hynny, mae tri yn ymestyn eu horiau clwb brecwast trwy ddarparu sesiwn â thâl ymlaen llaw. Mae'r 17 ysgol sy'n weddill wedi dewis darparu darpariaeth cyn ysgol sy'n cael ei ddarparu gan Glybiau Brecwast â thâl.

10. Credyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwr / Gofal Plant Di-dreth

10.1 Dadansoddiad o Gredyd Treth Gwaith / Credyd Cynhwysol a Gofal Plant a Gefnogir gan Gyflogwr / Gofal Plant Di-dreth

Atebodd 118 o ymatebwyr y cwestiwn yn ymwneud â Chredyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ar yr arolwg rhieni ac atebol 116 o ymatebwyr y cwestiwn yn ymwneud â Chynlluniau a Gefnogi gan Gyflogwr. Mae'r dadansoddiad isod yn cynnwys gwir niferoedd a chanrannau.

- **Nifer o ymatebwyr oedd yn hawlio yn ôl darpariaeth gofal plant a'r nifer o blant sy'n mynychu**

Dim ond 18 o ymatebwyr nododd eu bod yn hawlio'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol ac mae hyn gyfystyr â dim ond 15% o'r rhai a atebodd y cwestiwn ar yr arolwg rhieni. Roedd cyfanswm o 30 o blant y mae credydau treth yn cael eu hawlio ar eu cyfer, ac o'r rhain roedd 3 yn cael gofal gan warchodwyr plant (10%), 14 yn mynychu darpariaeth meithrinfa (47%), 1 yn mynychu gofal sesiynol (3%), 7 mewn clwb ar ôl ysgol (23%), 3 mewn clwb brechwast (10%) ac 1 yn mynychu cynllun chwarae yn y gwyliau (3%). Nododd 39 o ymatebwyr (33% yr ymatebwyr cyffredinol ar gyfer y cwestiwn hwn) eu bod yn hawlio gofal plant di-dreth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr am gyfanswm o 69 o blant; o'r rhain roedd 12 yn cael gofal gan warchodwyr plant (17%), roedd 36 yn mynychu meithrinfeydd (52%), roedd 2 yn mynychu darpariaeth gofal sesiynol (3%), 12 yn mynychu clybiau ar ôl ysgol (17%), 6 mewn clwb brechwast (9%) a 2 mewn cynllun chwarae yn y gwyliau (3%).

- **Nifer yr ymatebwyr sy'n bwriadu hawlio yn y dyfodol a gofynion gofal plant**

Dim ond 16 o'r 116 o ymatebwyr sy'n bwriadu hawlio'r elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol; mae hyn gyfystyr â dim ond 14% ac mae 25 yn ansicr a fyddant yn hawlio yn y dyfodol (21%). Mae'r rhai sy'n bwriadu hawlio angen cymysgedd o lefydd meithrinfa dydd llawn a gofal ar ôl ysgol. Mae 33 o'r 116 o ymatebwyr (26%) yn bwriadu hawlio gofal plant di-dreth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr yn y dyfodol ac mae 27 (23%) yn ansicr a fyddant yn hawlio. O'r rhai sy'n bwriadu defnyddio cynllun o'r fath, mae ychydig dros hanner yn bwriadu defnyddio gwarchodwyr plant neu ddarpariaeth meithrinfa, a bydd yr hanner arall yn defnyddio darpariaeth y tu allan i'r ysgol.

- **Nifer yr ymatebwyr sydd ddim yn hawlio a'u rhesymau**

Nododd 90 o'r 118 o ymatebwyr (76%) nad oeddent yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Uniongyrchol. Y prif resymau dros beidio hawlio oedd eu bod yn gwybod nad oeddent yn gymwys (41%), nad oeddent yn

gwybod am y mathau hyn o greydau treth (12%) a'u bod yn ansicr a oeddent yn gymwys (6%). Rhoddodd ychydig o'r ymatebwyr resymau eraill dros beidio hawlio, gan gynnwys dewis peidio (3%) neu deimlo bod y broses yn rhy gymhleth (2%) a defnyddio gofal plant heb ei gofrestru (e.e. Nanis) (2%) neu bod eu hamgylchiadau yn newid yn rhy aml i'w galluogi i hawlio yn hawdd (2%). Doedd 78 o'r 116 o ymatebwyr (67%) ddim yn hawlio gofal plant di-dreth trwy eu Cynllun a Gefnogir gan Gyflogwr. Y prif resymau dros beidio hawlio oedd nad oeddent yn gwybod am y Cynlluniau a Gefnogir gan Gyflogwr (20%), nad oeddent yn gwybod a ydynt yn gymwys (15%) a'u bod yn gwybod nad ydynt yn gymwys (12%). Rhoddodd ychydig o'r ymatebwyr resymau eraill dros beidio hawlio, gan gynnwys dim digon o amser i hawlio (4%), ddim yn talu am y gofal plant y maent yn ei ddefnyddio (4%) neu yn defnyddio gofal plant heb ei gofrestru (3%).

10.2. Crynodeb o gryfderau a gwendidau allweddol

Cryfderau:

- Mae argaeledd gofal plant di-dreth yn lleihau'r rhwystrau i'r rhai sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith neu ddechrau gweithio

Gwendidau:

- Yn ôl canlyniadau'r arolwg rhieni hwn, roedd llai na un rhan o bump o rieni/gwarcheidwaid yn hawlio eu helpen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol, a dim ond traean yn hawlio o'r Cynlluniau a Gefnogir gan Gyflogwr.
- Roedd cyfran helaeth o'r rhai nad oeddent yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu Gredyd Cynhwysol neu'n defnyddio eu Cynllun a Gefnogir gan Gyflogwr yn gymwys, neu nid oeddent ar gael.
- O'r holl ymatebion i gwestiynau yn ymwneud â chynlluniau gofal plant di-dreth, roedd rhwng 6% a 15% yn anymwybodol o'r cynlluniau neu ddim yn gwybod a ydynt yn gymwys.

11. Cynaliadwyedd

Cefnogaeth ar gyfer darparwyr

Mae grantiau cychwynnol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer clybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol trwy Grant Gofal Plant Tu Allan i'r Ysgol Llywodraeth Cymru; Mae'r Swyddog Datblygu Gofal Plant hefyd yn cael ei ariannu trwy'r grant i ddarparu cefnogaeth fusnes a'u cynorthwyo gyda'r broses gofrestru. Yn anffodus, nid yw telerau ac amodau'r grant hwn yn caniatáu ei ddefnyddio ar gyfer gofal plant cyn ysgol. Mae gofal dydd llawn, gofal dydd sesiynol a gwarchodwyr plant yn cael cefnogaeth gan grant gofal plant Sir y Fflint. Mae'r gefnogaeth yn cael ei ddarparu trwy drefniant gyda PPA Cymru i ddarparu Gweithiwr Datblygu sy'n cefnogi lleoliadau PPA Cymru gyfan ac maent hefyd yn gallu cefnogi lleoliadau heb eu cofrestru i gwblhau eu cofrestriad gydag AGGCC. Mae Gwarchodwyr Plant wedi'u cefnogi gan PACEY Cymru gyda'r Swyddog Datblygu Gofal Plant yn gweithio yn agos gyda Swyddog Ansawdd a Hyfforddiant Gogledd Cymru PACEY Cymru i ddarparu pecyn wedi'i deilwra ar gyfer gwarchodwyr plant cofrestredig a rhai sy'n mynd drwy'r broses gofrestru. Mae gan warchodwyr plant hefyd hawl i gefnogaeth ariannol sydd bron yn gyfanswm o £700; ac mae'n cynnwys cost y cwrs CYPOP5, pecyn dechrau busnes PACEY gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a grant o £300 tuag at offer iechyd a diogelwch.

Mae cynaliadwyedd yn fwy o broblem ar gyfer lleoliadau gofal plant gyda chynnydd yn y lleiafswm cyflog, costau rhent, cyfleustodau a threthi busnes. Mae grantiau cynaliadwyedd ar gael ar gyfer holl leoliadau gofal plant; ond, mae'n rhaid dangos sut y byddant yn defnyddio'r arian i'w galluogi i fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol. Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, mae cyfartaledd o ddeuddeg lleoliad y flwyddyn wedi cael grant cynaliadwyedd ac mae'r mwyafrif o'r rhain wedi bod yn lleoliadau grwpiau chwarae. Mae nifer o gyrsiau hyfforddiant gorfodol sydd angen eu cwblhau gan weithwyr gofal plant yn rheolaidd, yn ogystal â hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus; er bod y cyrsiau hyn yn aml yn cael eu hwyluso gan yr Awdurdod Lleol, nid ydynt fel arfer yn cael eu hariannu ac mae hyn yn rhoi baich ychwanegol ar leoliadau. Mae darparu cefnogaeth briodol ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig neu anabledd yn fater arall oherwydd, er bod cyllid yn cael ei ddarparu i leoliadau roi cefnogaeth ychwanegol, mae hyn wedi'i gyfyngu i 2 awr y sesiwn am uchafswm o 5 sesiwn yr wythnos, felly mae costau pellach i'w talu gan y lleoliad yn gyffredinol.

Cefnogaeth i Rieni / Gofalwyr

Mae cefnogaeth ariannol ar gael i rieni i helpu gyda chostau gofal plant, fel elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a gofal plant di-dreth trwy Gynllun a Gefnogir gan Gyflogwr. Eleni hefyd bydd y cynnig cyffredinol o ofal plant di-dreth yn cael ei gyflwyno. Gall rieni agor cyfrif ar-lein lle gallant fancio taliadau gofal plant. Am bob £8 y bydd rhiant yn ei dalu, bydd y Llywodraeth yn

ychwanegu £2 hyd at uchafswm o £2,000 y flwyddyn i bob plentyn. Bydd teuluoedd plant anabl yn cael cymorth gyda'u costau gofal plant hyd at uchafswm o £4,000 y flwyddyn. Mae Sir y Fflint wedi'i ddewis fel gweithredwr cynnar y cynnig gofal plant sy'n cynnig gofal plant i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio ar ben y hawl Cyfnod Sylfaen i Flynyddoedd Cynnar – i ddarparu cyfanswm o 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar am ddim am 48 wythnos o'r flwyddyn.

Mae'r cynlluniau llefydd a gynorthwyr wedi'u hariannu trwy grant Gofal Plant Sir y Fflint a grant gofal plant y tu allan i'r ysgol Llywodraeth Cymru. Mae'r grantiau hyn ar gael i alluogi teuluoedd ar incwm isel i gael gofal plant am ddim. Mae nifer cyfyngedig o grantiau hefyd ar gael ar gyfer lleoliadau i ddarparu cefnogaeth un i un i blant ag anghenion ychwanegol gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant addas ledled y sir. Mae'r grant y tu allan i'r ysgol yn ariannu swydd Swyddog Broceriaeth Gofal Plant ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae'r swyddog hwn yn gallu cefnogi teuluoedd gyda phlant ag anghenion ychwanegol i gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant.

AGGCC

Nid yw dadgofrestru AGGCC yn broblem mawr yn Sir y Fflint; mae trosiant cymharol uchel o warchodwyr plant ond mae hyn yn bennaf oherwydd natur y swydd yn hytrach na phroblemau cynaladwyedd. Y prif reswm dros gau lleoliadau gofal plant eraill yn Sir y Fflint yw'r diffyg galw am lefydd.

12. Trawsffiniol

Yn Sir y Fflint, mae nifer o enghreifftiau o waith ar y cyd ar draws ffiniau gyda siroedd cyfagos. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) a Chyngor Sir y Fflint (CSyFf) yn ariannu swydd swyddog Broceriaeth Gofal Plant sy'n cefnogi rhieni / gofawyr plant ag anabledd i gael gofal plant addas a darpariaeth chwarae. Menter trawsffiniol arall yw'r prosiect Aspire sy'n ariannu swyddog Datblygu i gefnogi rhieni ifanc (darpar rieni o 29 wythnos o feichiogrwydd), 14 i 25 oed yn Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r Swyddog Datblygu Gofal Plant yn mynychu cyfarfodydd chwarterol ar gyfer 'Cynrychiolwyr Ardal Cymru Gyfan yr EYDCPs' (AWARE) sy'n cael eu mynychu gan unigolion o holl awdurdodau lleol Cymru. Mae'r grŵp hwn yn hyrwyddo rhannu gwybodaeth, arfer gorau a chyswllt â Llywodraeth Cymru sy'n cael eu cynrychioli yn y cyfarfodydd hyn.

Yn ystod 2016 – 2017, mae'r Swyddog Datblygu Gofal plant wedi ymuno â chonsortium hyfforddiant ledled Gogledd Cymru. Mae'r consortium, gan gynnwys Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn wedi darparu cyfleoedd hyfforddiant a sesiynau cefnogi cyn cofrestru ar gyfer gwarchodwyr plant sy'n dymuno cofrestru yn eu hawdurdod lleol perthnasol. Mae rhannu adnoddau hyfforddiant wedi galluogi Sir y Fflint i ddarparu pedwar cyfle yn ystod y flwyddyn i warchodwyr plant posibl gael mynediad i'r cwrs hyfforddiant angenrheidiol i gael eu cofrestru. Ar ddau achlysur, mae llefydd ar y cyrsiau hyn wedi bod ar gael i ymgeiswyr fynychu o Wrecsam a Sir Ddinbych.

Ymgynghorwyd â chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol cyfagos mewn perthynas ag unrhyw gyswllt y maent wedi'i gael gyda phreswylwyr Sir y Fflint i fynychu gofal plant yn eu hawdurdod lleol neu wneud ymholiadau ac mae'r ymatebion fel a ganlyn:

- Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam wedi cofnodi dau ymholiad gan rieni yn chwilio am ofal plant yn Sir y Fflint.
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Ddinbych – dim ymateb.
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gorllewin Swydd Caer a Chaer – nid oedd unrhyw ymholiadau trawsffiniol o ran gofal plant ar gyfer y cyfnod hwn.
- Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint wedi cael yr ymholiadau a ganlyn 1. Gweithiwr Cymdeithasol o Lerpwl sy'n cefnogi teulu sy'n symud i Sir y Fflint ac yn chwilio am wasanaethau tebyg. 2. Nain o Swydd Caint yn galw ar ran ei merch beichiog sy'n symud i Sir y Fflint ac yn chwilio am wasanaeth cefnogi teuluoedd 3. Amryw o alwadau yn ymwneud â rhieni yn ceisio grantiau a llefydd Addysg Blynyddoedd Cynnar gan awdurdodau lleol cyfagos.

Mae gan Gyngor Sir y Fflint drefniadau trawsffiniol ar gyfer Addysg Blynyddoedd Cynnar gyda'r tri awdurdod cyfagos, yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y nifer o blant yn Sir y Fflint a oedd yn ymwybodol o hynny ac yn derbyn eu Haddysg Blynyddoedd Cynnar y tu allan i'r awdurdod lleol yn ystod tymor yr haf 2016 fel a ganlyn:

Awdurdod Lleol	Nifer Plant Sir y Fflint
Wrecsam	3
Sir Ddinbych	3
Gorllewin Swydd Caer a Chaer	0

Roedd y dadansoddiad o blant o'r tu allan i'r Awdurdod Lleol sy'n derbyn eu Haddysg Blynyddoedd Cynnar yn Sir y Fflint yn ystod tymor yr haf 2016 fel a ganlyn:

Awdurdod Lleol	Nifer o blant sy'n mynychu lleoliadau Addysg Blynyddoedd Cynnar Sir y Fflint
Wrecsam	12
Sir Ddinbych	1
Gorllewin Swydd Caer a Chaer	3

Ni wnaeth yr arolwg rhieni ddarparu digon o wybodaeth mewn perthynas â threfniadau trawsffiniol ar gyfer gofal plant oherwydd dim ond dau wnaeth nodi eu bod yn defnyddio gofal plant y tu allan i'r Awdurdod Lleol.

Mae'r wybodaeth uchod ynglŷn â defnydd trawsffiniol y ddarpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar a lefelau ymholiadau yn awgrymu bod y mwyafrif helaeth o breswylwyr Sir y Fflint yn gallu cael gofal plant addas neu ddarpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar yn yr awdurdod lleol.

13. Datblygu'r Gweithlu

Mae'r crynodeb canlynol yn seiliedig ar ddata o ffurflenni SASS a gwblhawyd ar-lein yn ystod Gorffennaf ac Awst 2016. Daeth Arolwg Gweithlu Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar CWLWM 2016 i'r casgliad, o sampl arolwg o 116, nad oedd gan 25% o'r ymatebwyr unrhyw gymwysterau mewn gofal plant neu waith chwarae.

- Yn ôl data SASS, mae gan ychydig dros 5% o warchodwyr plant staff anghymwys. Yr isafswm gofyniad cymwysterau ar gyfer gwarchodwr plant cofrestredig yw'r cwrs CYPOP5, felly bydd y 5% o staff gwarchodwyr plant anghymwys yn Gymhorthwyr nad oes rhaid iddynt fod yn gymwys i unrhyw lefel ar hyn o bryd. Mae gan 49% o warchodwyr plant gymhwyster Lefel 3 ac mae 26% yn gymwys i Lefel 4 neu uwch. Mae 25% o warchodwyr plant yn gweithio tuag at gymhwyster uwch ar hyn o bryd.
- Mae llai na 0.03% o'r gweithwyr gofal plant mewn lleoliadau gofal dydd llawn yn anghymwys gyda 25% o'r rhain yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 3. Mae 13% o'r gweithlu gofal dydd llawn yn gymwys i lefel 2, 62% yn gymwys i lefel 3 ac 18% yn gymwys i lefel 4 neu uwch. Mae 23% o'r gweithwyr gofal plant mewn gofal dydd llawn yn gweithio tuag at gymhwyster lefel uwch.
- Mae 7% o weithwyr gofal plant mewn lleoliadau gofal dydd sesiynol yn anghymwys ac mae 11% o'r rhain wrthi'n gweithio tuag at gymhwyster lefel 3. Mae 9% o weithwyr gofal sesiynol yn gymwys i lefel 2, 60% yn gymwys i lefel 3 ac 13% yn gymwys i lefel 4 neu uwch. Mae 22% o weithwyr gofal plant yn gweithio tuag at gymhwyster uwch ar hyn o bryd.
- Dim ond 5% o weithwyr creche sy'n anghymwys. Mae gan 16% gymhwyster lefel 2 ac mae gan 72% gymhwyster lefel 3. Ond, dim ond 7% sy'n gymwys i Lefel 4 neu uwch.
- Dim ond 3% o weithwyr mewn clybiau y tu allan i'r ysgol sy'n anghymwys yn ôl data SASS ac mae 43% o'r rhain yn gweithio tuag at lefel 3. Mae 16% yn gymwys i lefel 2, 52% yn gymwys i lefel 3 ac 11% yn gymwys i lefel 4 neu uwch. Mae 31 o weithwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol (13%) yn gweithio tuag at gymhwyster uwch ar hyn o bryd.
- O'r 2 nani wnaeth gwblhau'r arolwg, dim ond un oedd â'r cymhwyster lefel 3 perthnasol ac nid oedd unrhyw un ohonynt yn cwblhau unrhyw hyfforddiant pellach ar adeg yr arolwg.

- Mae gan yr unig ddarpariaeth chwarae mynediad agored cofrestredig yn Sir y Fflint ddau berson cofrestredig yn gyfrifol ac mae gan y ddau gymwysterau lefel 3 ac mae un yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 5 mewn gwaith chwarae. Mae arolwg AGGCC wedi, hyd yma, caniatáu i'r lleoliad weithredu y tu allan i'r cyfraddau staffio arferol ar gyfer lleoliad gofal plant cofrestredig oherwydd natur tymhorol y gwaith (mae'r lleoliad ar agor am bum wythnos y flwyddyn yn ystod gwyliau'r haf.) Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr am wythnos yn arwain at ddechrau gwyliau'r haf ar gyfer gofynion hyfforddiant gorfodol a meysydd eraill o ddatblygiad proffesiynol parhaus.
- Yr ymateb mwyaf poblogaidd yn ymwneud â hyfforddiant ychwanegol oedd codi a symud yn gorfforol, wedi'i ddilyn gan fodiwlau Cyfnod Sylfaen, ac yna hyfforddiant Dechrau'n Deg, Ymwybyddiaeth Tân a Chymorth Cyntaf yn y Gwaith. Mae'r mwyafrif o hyfforddiant eraill yn ymwneud ag anghenion ychwanegol / meddygol neu iechyd a diogelwch.
- Mae tua 150 o weithwyr gofal plant fydd angen hyfforddiant Cymorth Cyntaf paediatreg sylfaenol yn 2017 oherwydd bod eu tystysgrifau cyfredol yn dod i ben yn ystod y 12 mis nesaf. Mae gofyniad o 130 o lefydd hyfforddiant ar gyfer y rhai sydd angen cwrs hylendid bwyd. Y ffigwr ar gyfer hyfforddiant Diogelu Plant yw 130 o weithwyr gofal plant. Gan edrych ymlaen i 2018, mae'r gofyniad am lefydd ar gyrsiau Cymorth Cyntaf a diogelwch bwyd yn debyg i rai 2017, ond bydd angen bron i ddwbl nifer y llefydd ar gyfer llefydd hyfforddiant Diogelu Plant.
- Er nad yw'r hyfforddiant gorfodol wedi'i ariannu yn uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol bellach, mae rhaglen hyfforddiant wedi'i gymorthdalau ar gael i bob gweithiwr gofal plant yn Sir y Fflint i sicrhau bod lleoliadau yn cwblhau'r modiwlau hyfforddiant statudol hyn. Mae hefyd nifer o gyrsiau hyfforddiant nad ydynt yn orfodol yn cael eu cynnig am ddim i alluogi gweithwyr gofal plant i barhau eu datblygiad proffesiynol.

14. Canlyniadau'r Ymgynghoriad gyda Budd-ddeiliaid (fel yr amlinellwyd yn adran 2)

Mae canfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad gyda budd-ddeiliaid allweddol wedi'u crynhoi isod:

Sefydliadau Ymbarél / Partner

Nid oedd **Clybiau Plant Cymru (CPCKC)** yn gallu darparu ymateb sy'n benodol i Sir y Fflint, ond eu sylwadau cyffredinol oedd:

- Mae angen cyllid parhaus i gynnal y ddarpariaeth gofal plant presennol y tu allan i'r ysgol a chreu darpariaeth newydd os oes angen
- Mewn arolwg diweddar a gynhaliwyd ledled Cymru, roedd 35% o ymatebwyr yn dymuno rhagor o ofal yn y gwyliau, nododd 30% nad oedd gofal addas ar gael yn y gwyliau, a nododd 17% bod cost yn rwystr iddynt gael gofal plant.
- Dylid darparu hyfforddiant i alluogi lleoliadau i gofrestru gydag AGGCC fel y gall rieni gael credydau treth.
- Mae angen llefydd a gynorthwyr i alluogi teuluoedd ar incwm isel i gael darpariaeth gofal plant.
- Mae cefnogaeth 1:1 yn hanfodol i gefnogi plant gydag anabledd a'u hintegreiddio yn y lleoliadau gofal plant.
- Mae angen ymgyrch marchnata cenedlaethol i hyrwyddo gofal plant a rhoi gwybod i rieni am y manteision.

Cymdeithas Cenedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)

- Mae ansawdd, ystod, argaeledd, lleoliad ac addasrwydd gofal plant yn Sir y Fflint yn dda; mae fforddadwyedd a hyblygrwydd yn foddhaol ond does dim darpariaeth iaith Gymraeg yn yr Awdurdod.
- Ledled Cymru, mae cyfraddau llenwi wedi gostwng o 69% yn 2015 i 67% yn 2016 ac mae cynaladwyedd yn broblem gyda chostau cynyddol a hyder cyfyngedig mewn busnes.
- Byddai cynnig blynyddoedd cynnar a gofal plant am ddim Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3 a 4 oed yn helpu teuluoedd sy'n gweithio a theuluoedd ar incwm isel.

Mudiad Meithrin

- Dim ond 7 cylch meithrin sydd yn Sir y Fflint (Treffynnon, yr Wyddgrug, y Fflint, Treuddyn, Picton, Shotton a Garden City) ar hyn o bryd, gyda 12 sesiwn Ti a Fi bob wythnos ac 1 sesiwn deithiol Ti a Fi am Dro bob wythnos yng ngwahanol ardaloedd Sir y Fflint.

- Mae angen gweithlu cymwys sy'n siarad Cymraeg yn barod ar gyfer y cynnig gofal plant am ddim
- Er bod Sir y Fflint ar y ffin â Lloegr, ni ddylai hyn atal y mynediad at ofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r Eisteddfod ac mae'n bwysig parhau i wella ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd.

Cymdeithas Proffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY)

- Mae PACEY Cymru yn credu bod Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd gwarchodwyr plant wrth gefnogi darpariaeth gwasanaethau gofal plant digonol, hygyrch ac o ansawdd ar gyfer teuluoedd ledled y sir, gan gynnwys darparu oriau anghymdeithasol ar gyfer rhieni mewn angen.
- Mae cefnogaeth a ddarperir i Warchodwyr Plant sy'n cofrestru yn cynnwys sesiynau briffio gwarchodwyr plant, arian ar gyfer gweithdy cefnogi cyn cofrestru; sesiynau cymorthfeydd cyngor unigol a cefnogaeth dros ffôn ac e-bost, pecynnau dechrau busnes a grant cychwyn arni o £300 ar gyfer offer iechyd a diogelwch.
- Mae Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint wedi cymryd rhan mewn webinarau partner gydag unigolion o Awdurdodau eraill.
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â gwarchodwyr plant dros e-bost neu newyddlenni a bostiwyd. Mae PACEY yn cydnabod ac yn cefnogi hyrwyddo rhaglen hyfforddiant gofal plant awdurdodau lleol.
- Mae gan newidiadau feini prawf allu cyfyngedig i warchodwyr plant gymhwyso ar gyfer grantiau cynaladwyedd.
- Hoffai PACEY Cymru groesawu'r cyfle i archwilio dewisiadau ymarferol i warchodwyr plant ddarparu darpariaeth Cyfnod Sylfaen a ariennir yn Sir y Fflint.
- Gall warchodwyr plant, fel darparwyr gofal plant eraill, gynnwys gwybodaeth am eu gwasanaeth i rieni yn Cyfeirlyfr Gofal Plant GGDSF. Nid yw'n ymddangos bod gwybodaeth o nanis cymeradwy yn Cyfeirlyfr Gofal Plant GGDSF.
- Mae gan Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint wefan, ond nid yw'n ymddangos ei fod ar gyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook – cyfrwng cymdeithasol a ddefnyddir yn gyffredin gan warchodwyr plant yn enwedig. Gellir ystyried hyn i'r dyfodol i gefnogi ymgysylltiad a hyrwyddo gwasanaethau a hyrwyddo proffesiynoldeb darparwyr gofal plant a chynnaladwyedd gwasanaethau yn anuniongyrchol.

Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg

Mae'r swyddog arweiniol ar gyfer y Fforwm Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cadeirio'r fforwm gan ei fod yn trafod materion yn ymwneud â gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn rheolaidd. Mae'r materion hyn hefyd yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd Partneriaeth Hawliau Cynnar y mae'r Swyddog Datblygu Gofal Plant yn eu mynychu. Ac mae Cadeirydd y Fforwm Addysg

Cyfrwng Cymraeg, ochr yn ochr â Dirprwy Reolwr Mudiad Meithrin ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru yn mynychu'r FEYDCP yn rheolaidd lle mae cydlynid materion sicr yn ymwneud â gofal plant yn y sector cyfrwng Cymraeg.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (GGDSF) yn darparu gwybodaeth a chynghor am ofal plant, darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a gwasanaethau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r GGDSF yn parhau i hyrwyddo darparwyr a llefydd newydd a chyfredol dros y ffôn, e-bost, gwefan, ac estyn allan gyda'r mwyafrif o'r ymholiadau yn cael eu derbyn trwy'r wefan. Mae adborth yn cael ei dderbyn trwy ffurflenni monitro a gyflwynir ar ddiwedd bob mis. Mae canlyniadau'r ymholiadau hyn fel a ganlyn:

- Mae 100% o ymholwyr yn fodlon gyda'r wybodaeth a dderbyniwyd trwy'r GGDSF.
- Mae 100% o ymholwyr wedi gallu gwneud dewis gwybodus am ofal plant a gweithgareddau oherwydd yr wybodaeth y maent wedi'i gael trwy'r GGDSF.
- Dewisodd 67% o'r ymholwyr gael mynediad i ofal plant addas ar ôl cysylltu â'r GGDSF. Nodir nad yw pob ymholwyr yn chwilio am ofal plant.

Ysgolion Cynradd

Cwblhaodd 35 o ysgolion cynradd Sir y Fflint arolwg i ategu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

- Darparodd 31 o ysgolion glwb ar ôl ysgol ar y safle; darparodd 8 ysgol ddarpariaeth gofal cofleidiol; hwylusodd 11 ysgol ddarpariaeth grŵp chwarae ar y safle; roedd gan 8 ysgol glwb gwyliau; darparodd 13 ysgol glwb brechwast estynedig trwy ddarpariaeth am ddim a gyda ffi; darparodd 11 ysgol ddarpariaeth brechwast am ddim yn unig; darparodd 6 ysgol glwb brechwast gyda ffi yn unig; cynigodd 5 ysgol ddarpariaeth Dechrau'n Deg.
- Nid oedd 7 ysgol yn ymwybodol o unrhyw ddarparwyr gofal plant lleol yn casglu plant o'r ysgol ac roedd y 28 sy'n weddill yn gwybod bod gwarchodwyr plant neu feithrinfeydd dydd yn darparu'r gwasanaeth.
- Roedd 20 ysgol yn teimlo bod digon o ofal plant yn lleol i ddiwallu anghenion teuluoedd sy'n mynychu'r ysgol. Mae Ysgol Bryn Garth, Penyffordd, Treffynnon wedi ymestyn ei grŵp chwarae i foreau i ychwanegu at ei sesiynau prynhawn, ac mae un arolwg a ddychwelwyr yn ddiennw yn awgrymu'r angen am fwy o warchodwyr plant gydag amseroedd hyblyg.

- Nid oedd 5 ysgol yn teimlo bod y farchnad gofal plant lleol yn diwallu anghenion y teulu, gydag un ysgol yn awgrymu y dylai mwy o warchodwyr plant gofrestru yn lleol a'r llall yn ystyried ymestyn eu darpariaeth meithrin.
- Nid oedd 10 ysgol yn gwybod a yw anghenion gofal plant yn cael eu diwallu yn lleol
- Yn 17 o'r ysgolion a arolygwyd, mae rhieni wedi mynd i'r ysgol i holi am ofal plant. Roedd y mwyafrif o'r ymholiadau hyn am ddarpariaeth ar y safle neu gerllaw. Yn dilyn arolwg o'r rhieni, mae Ysgol Wood Memorial, Saltney, wrthi'n cofrestru grŵp chwarae a darpariaeth ar ôl ysgol, ac yn Ysgol Parc Y Llan, Treuddyn, mae rhieni wedi gofal am fwy o lefydd yn y clwb ar ôl ysgol. Hefyd, yn Ysgol Gynradd Saltney Ferry, hoffai rhai rhieni gael gofal plant ar gyfer plant dan 2 oed i fynychu cyrsiau. Mae Ysgol Gynradd Sandycroft wedi ymestyn eu gofal i blant hŷn i ddiwallu anghenion rhieni.
- Roedd gan 9 o ysgolion le ar gael i ddarparu gofal plant ar y safle, ac o'r rhain, roedd gan bump ddiddordeb mewn darparu gwasanaeth – byddai Ysgol y Waun yng Ngwernaffield yn ystyried agor yr ysgol ar gyfer clwb gwyliau pe bai cwmni preifat eisiau darparu'r gwasanaeth, a llwyddodd Ysgol Gynradd Westwood a Bagillt i ganfod lle yn yr ysgol ar gyfer darpariaeth gofal plant newydd neu fwy.
- O'r 31 ysgol sydd â gwasanaethau gofal plant ar y safle, byddai 50% yn rhagweld y galw am ragor o lefydd ac oriau hirach, a'r pryder mwyaf cyffredin oedd cost ehangu'r gwasanaeth.
- Yn ôl canlyniadau'r arolwg, nid oed gan bedair ysgol glwb ar ôl ysgol. Mae un o'r rhain yn Saltney ac yn cyflwyno cais ar hyn o bryd i AGGCC am glwb ar ôl ysgol a darpariaeth grŵp chwarae. Yn ddiweddar, arolygodd ysgol arall ym Mostyn y rhieni a dim ond 2% wnaeth fynegi diddordeb mewn clwb ar ôl ysgol yn yr ysgol.
- Mae'r Swyddog Datblygu Gofal Plant yn parhau i gefnogi ysgolion yn Abermorddu, Whitford, Broughton a'r Wyddgrug wrth iddynt geisio cofrestru darpariaeth gofal plant ar ôl ysgol yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.
- Cyflogwyr Lleol – mae GGDSF yn cefnogi cyflogwyr lleol trwy ddarparu gwybodaeth i weithwyr, mynychu ffeiriau swyddi, darparu cefnogaeth estyn allan ac arolygu cyflogwyr ar gyfer yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Cysylltwyd â chyflogwyr lleol a chwblhaodd nifer ohonynt arolwg post a darparodd hyn gipolwg ar rwystrau a wynebier gan rieni sy'n dychwelyd i'r gwaith a'r ystod o wasanaethau gofal plant sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion.

- Roedd budd-ddeiliaid eraill yr ymgynghorwyd â nhw yn cynnwys ysgolion ac adrannau awdurdod lleol eraill fel Cynllunio, Lleoliadau Cyn Ysgol Iach a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn. Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf e-byst a thrafodaethau wyneb yn wyneb.

Adrannau Awdurdod Lleol Perthnasol

- Mae **Adran Cynllunio Sir y Fflint** wrthi'n prosesu dau gais i newid eiddo masnachol ar gyfer dau ddarpariaeth Meithrinfa Dydd, un yn Queensferry a'r llall yn Greenfield. Fel arfer, nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwarchodwyr plant sy'n gwarchod chwech neu lai o blant, ond mae angen iddynt gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o hyn i AGGCC. Fel arfer daw hyn ar ffurf llythyr neu e-bost sy'n arwain at gost.
- Ni wnaeth **Cymdeithas Tai Clwyd Alyn** ymateb i gais am adborth ynglŷn â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.
- **Lleoliadau Cyn Ysgol Iach**

Mae'r cynllun wrthi'n gweithio gyda 40 o leoliadau cyn ysgol a'r mwyafrif ohonynt yn ddarparwyr Dechrau'n Deg. Mae lleoliadau cyn ysgol iach wedi nodi bod lleoliadau gofal dydd sesiynol yn cael anhawster cynnal niferoedd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ond mae cyfraddau presenoldeb yn tueddu i wella ar ôl y Nadolig. Mae darparwyr Gofal Dydd Llawn a Gwarchodwyr Plant wedi nodi cynnydd yn y gofal plant sy'n cael ei wneud gan ffrindiau a theulu oherwydd bod rhieni yn defnyddio eu darpariaeth yn rhan amser neu achlysurol.

Cyflogwyr Sir y Fflint

Anfonwyd Arolygon Cyflogwyr i 109 o gyflogwyr ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant rhwng Awst 2016 a Hydref 2016. Roeddent yn amrywio o fentrau bach a chanolig i gyflogwyr mawr rhyngwladol sy'n cyflogi mwy na 5,000 o staff ac wedi'u lleoli ledled y sir. Mae canlyniadau'r arolwg, a seiliwyd ar 46 o arolygon a ddychwelwyd (cyfradd dychwelyd 42%) fel a ganlyn:

- Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan gyflogwyr yn amrywio o ran maint o 10 i 2,500+ o weithwyr

- Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn cynnwys busnesau a gategoreiddiwyd fel – Adeiladu, Adwerthu, Twristiaeth, Dosbarthu, Gweinyddu Cyhoeddus, Iechyd ac Addysg, Cludiant a Chyfathrebu.
- Roedd gan 74% o gyflogwyr weithlu o 50% neu fwy o weithwyr benywaidd ac nid oedd 9% o'r cyflogwyr yn cyflogi unrhyw staff benywaidd.
- Roedd 7 o'r ymatebwyr yn cyflogi staff heb blant ac roedd y gweddill yn cyflogi staff gyda rhwng 1% ac 80% o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb riant am blant dan 14 oed.
- Roedd 46% o'r cyflogwyr yn gweithredu y tu allan i oriau 8.00am a 6.00pm. Roedd y mwyafrif yn cynnwys amrywiaeth o batrymau shifft gyda tri o'r ymatebwyr yn gweithredu dros 24 awr.
- Roedd 35% o'r ymatebwyr yn gweithredu oriau gwaith sy'n cynnwys patrymau shifft, dros nos, gyda'r nos neu ar benwythnosau neu shifftiau 24 awr.
- Roedd 61% o'r ymatebwyr yn cynnig cyfuniad o'r trefniadau hyblyg a ganlyn ar gyfer gweithio – rhan amser, gweithio oriau blynyddol, oriau cywasgedig, rhannu swydd, amser hyblyg, dychwelyd i'r gwaith fesul cam, lleihau oriau yn wirfoddol, yn ystod y tymor yn unig, gweithio o adref, a thoriadau gyrfa ac oriau a leihawyd dros dro.
- Rhoddodd 41% o gyflogwyr wybod bod cael plant wedi bod yn ffactor wrth atal rhieni rhag derbyn gwaith neu barhau â'u cyflogaeth
- Cafodd 43% o ymatebwyr broblemau absenoldeb staff a achoswyd gan faterion gofal plant. Ond, roedd y mwyafrif o'r rhain yn achlysurol.
- Pan ofynnwyd 'Pa welliannau sydd eu hangen i ofal plant i wella recriwtio a chadw'r gweithlu?' roedd yr ymatebion fel a ganlyn – mae 15% eisiau gofal plant ar gael ar wahanol adegau, mae 10% eisiau sesiynau gofal plant mwy hyblyg, 39% eisiau gofal plant mwy fforddiadwy, 4% eisiau gofal plant mewn lleoliadau gwahanol, 6% eisiau gofal plant sy'n well am ddiwallu anghenion ychwanegol y plant, 6% eisiau darpariaeth gofal plant o ansawdd gwell, 2% eisiau darpariaeth iaith Gymraeg / dwyieithog, 9% eisiau mynediad at wahanol fathau o ddarpariaeth gofal plant a 2% eisiau darpariaeth brecwast / ar ôl ysgol.
- Mae 43% o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cefnogi math o ddarpariaeth gofal plant ar gyfer eu gweithlu.
- Mae 50% o ymatebwyr yn prosesu talebau gofal plant ar gyfer eu gweithlu ac mae 9% yn cynnig rhyw fath o gymorth ariannol gyda chostau gofal plant.
- Roedd gan 6 cyflogwr feithrinfeydd ar y safle
- Dim ond 39% o'r cyflogwyr oedd yn ymwybodol y gall GGDSF ddarparu cyngor ac arweiniad am ddim ynglŷn â gofal plant a chydbwysedd gwaith-bywyd

15. Dadansoddi Bylchau a Meysydd i'w Gwella

Mae'r asesiad hwn yn cael bod darparwyr, rhieni a budd-ddeiliaid yn credu bod ansawdd darpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint yn dda ac mae darpariaeth ddigonol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o deuluoedd; fodd bynnag, mae rhai bylchau yn y ddarpariaeth wedi'u nodi ac mae angen mynd i'r afael â nhw:

- **Mathau gofal plant sydd ar gael**

O fewn Ardal 4 (CH7) roedd llai na 50% o warchodwyr plant yn darparu gwasanaeth cofleidiol. Mae 35% o'r gwarchodwyr plant a holwyd yn dewis peidio â darparu Gofal Hanner Diwrnod (AM neu PM). Nid oes gwarchodwyr plant cofrestredig yn Ardal 7 (LL18) ac mae nifer o bentrefi bychain ar draws pob ardal yn y Sir heb unrhyw ddarpariaeth gwarchod plant gofrestrdig.

Mae llai na 50% o ddarparwyr Gofal Dydd Llawn yn darparu sesiynau meithrin hanner diwrnod, darpariaeth ofal cyn ac ar ôl yr ysgol, cinio neu yn ystod gwyliau.

Saith clwb gwyliau'n unig sydd wedi'u cofrestru yn Sir y Fflint ac un lleoliad yn unig sy'n darparu gofal yn ystod gwyliau'r Nadolig ym Mwcle. Fodd bynnag, mae gwarchodwyr plant a lleoliadau gofal diwrnodau llawn, gan gynnwys meithrinfeydd preifat a darparwyr y tu allan i'r ysgol, hefyd yn darparu gofal gwyliau.

Fel y disgwylir â gofal sesiynol, nid oes unrhyw un o'r lleoliadau'n darparu sesiynau yn ystod gwyliau'r ysgol, ond mae nifer sylweddol o leoliadau'n darparu sesiynau bore neu sesiynau prynhawn yn unig. Nifer gyfyngedig sy'n darparu gofal cofleidiol neu glwb cinio hefyd ac yn y sefyllfaoedd hyn mae gwarchodwyr plant a darparwyr gofal diwrnodau llawn yn ateb rhywfaint o'r galw.

Dim ond pum darpariaeth crèche gofrestrdig sydd yn Sir y Fflint, ac mae un yn darparu gofal plant ochr yn ochr a chyfleusterau hamdden ac un arall yn rhoi cymorth i rieni wrth iddynt fynd ar gyrsiau hyfforddi.

Mae darpariaeth allan o'r ysgol wedi'i gwasgaru'n dda ar hyd yr Awdurdod. Mae clybiau brecwast am ddim mewn dros 70% o ysgolion cynradd ac mae'r ysgolion sy'n weddill yn cynnal clwb brecwast ar y safle am bris.

Mae darpariaeth chwarae mynediad agored ar gael ym mhob Ardal (1-8) a phob un ar gyfer gwyliau'r haf yn unig. Fodd bynnag, ond un lleoliad yn unig sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) felly mae'r holl leoliadau sy'n weddill wedi'u cyfyngu i weithredu am lai na 2 awr.

Ond pum mamaeth sydd wedi'u cofrestru ar y cynllun cymeradwyaeth gwirfoddol sydd ar waith yn Sir y Fflint.

Meysydd i'w gwella

- *Recriwtio mwy o warchodwyr plant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.*
- *Cefnogi cofrestru cynlluniau chwarae mynediad agored.*
- *Codi ymwybyddiaeth, ymysg asiantaethau a darparwyr hyfforddiant, bod cyfleusterau crèche ar gael yn Sir y Fflint.*
- *Cynnig mwy o wybodaeth mewn perthynas â mamaethod ar y cynllun cymeradwyaeth gwirfoddol drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint.*

- **Oed plant y mae gofal ar gael ar eu cyfer**

Gwarchodwyr plant sy'n gallu darparu gofal i'r ystod oedran fwyaf, ond ychydig sy'n gofalu am blant dan 12 mis oed neu dros 12 mlwydd oed.

Mae lleoliadau gofal diwrnodau llawn yn Sir y Fflint yn cynnig lleoedd ar draws yr ystod 0-12 mlwydd oed, ond nid oes unrhyw ofal diwrnodau llawn yn Ardal 5 i rai 5-11 mlwydd oed.

Mae'r rhan fwyaf o creches Sir y Fflint yn gofalu am rai 0-5 mlwydd oed yn unig.

Nid oes unrhyw ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol i blant rhwng 12 ac 17 oed, bron.

Nifer eithaf bach o blant dan 5 sy'n mynd i glybiau gwyliau, ond mae llawer yn yr ystod hwn yn derbyn gofal gan warchodwyr plant a meithrinfeydd gofal diwrnodau llawn yn ystod gwyliau'r ysgol.

Meysydd i'w gwella

- *Annog yr holl ddarparwyr gofal plant i ehangu'r ystod oedran maent yn darparu er ei chyfer yn unol â diwygiadau diweddar i reoliadau cofrestru o rai dan wyth i rai dan ddeuddeg.*

- **Fforddiadwyedd gofal plant**

Mae rhieni'n pwysleisio mai fforddiadwyedd yw'r ffactor pwysicaf wrth iddynt ystyried darpariaeth gofal plant ac roedd cyflogwyr yn dewis gofal plant fel y gwelliant mwyaf poblogaidd i ofal plant er mwyn recriwtio a chadw staff yn well.

Nifer bach iawn o leoliadau yn Sir y Fflint sydd heb eu cofrestru felly mae rhieni'n gallu cael credyd treth a defnyddio talebion gofal plant yn y rhan fwyaf o leoliadau gofal plant.

Mae'r rhai sy'n manteisio ar elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr yn isel iawn yn Sir y Fflint. Nid oedd tua 48% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg rhieni / gofalwyr yn gwybod ym mhle y gallent gael gwybodaeth am gymorth ariannol â gofal plant.

Meysydd i'w gwella

- *Hyrwyddo mwy ar Gredydau Treth Gwaith neu Gredydau Cynhwysol a Chynlluniau Cymorth Cyflogwyr sydd ar gael (gan gynnwys y cynllun Gofal Plant Di-dreth cenedlaethol, newydd).*
- *Dylid annog a chefnogi darparwyr pob math o ofal plant i gofrestru ag AGGCC.*

- **Amseroedd y mae gofal plant ar gael**

Mae nifer o leoliadau yn cynnig sesiynau o hyd amrywiol er mwyn bodloni anghenion teuluoedd yn ystod eu diwrnod gwaith arferol.

Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n cynnig gofal plant cyn 8am neu ar ôl 6pm ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn warchodwyr plant. Nid oes unrhyw ofal plant ar gael ar ôl 7pm. Pedwar darparwr cofrestredig yn unig sy'n cynnig sesiynau ar benwythnosau. Dau warchodwr plant yn unig sy'n hysbys i ni sy'n darparu gofal dros nos.

36% yn unig o ymatebwyr yr arolwg gofal plant a gredai fod digon o ofal plant ar gael ar yr amser angenrheidiol. Gellir ystyried y nifer isel hwn yn rhwystr i gyfleoedd cyflogaeth. Mae hyn wedi'i ategu gan yr arolwg cyflogwyr lle roedd 15% o'r ymatebwyr am i ofal plant fod ar gael ar adegau gwahanol er mwyn bodloni anghenion eu gweithlu.

Meysydd i'w gwella

- *Er mwyn bodloni anghenion gofal plant y rhai sy'n gweithio oriau annodweddiadol, mae angen mwy o ofal plant cyn 8am, ar ôl 6pm, dros nos ac ar benwythnosau.*
- *Dylid annog darparwyr gofal dydd sesiynol a darparwyr gofal y tu allan i'r ysgol i estyn eu horiau i fodloni anghenion teuluoedd sy'n gweithio.*

- **Lleoliad gofal plant**

Mae gwasgariad daearyddol darpariaeth gofal plant yn Sir y Fflint yn dda ac mae'n unol â phoblogaeth a phriodoleddau pob ardal; mae'r casgliad hwn wedi'i ategu gan farn budd-ddeiliaid a asesodd bod lleoliad gofal plant yn Sir y Fflint yn dda.

Pan fo bylchau, mae'r rhain yn tueddu i ymwneud â math y gofal plant, fel y cyfeiriwyd ato uchod, yn hytrach na lleoliad y gofal plant. Mewn rhai ardaloedd, gall ymddangos bod diffyg math penodol o ofal plant, ond mae'r gwasanaethau hyn, fel arfer, yn cael eu darparu yn yr ardal gan fath arall o ofal plant felly mae'r galw'n dal i gael ei ateb.

Yr unig eithriad yw diffyg gofal yn ystod gwyliau mewn nifer o leoliadau, ond yn yr Wyddgrug ac yn Nhreffynnon yn bennaf.

Maes i'w wella

- Datblygu darpariaeth gofal yn ystod gwyliau yn yr Wyddgrug a Threffynnon.

- **Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg**

Mae'n amlwg bod galw sydd heb ei ateb mewn perthynas â nifer gyfyngedig o blant Cymraeg eu hiaith yn Sir y Fflint, ac mae hyn wedi'i ategu gan adborth budd-ddeiliaid. 30% yn unig o rieni a gwblhaodd yr arolwg oedd yn credu bod digon o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael yn y Sir.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Sir y Fflint unrhyw warchodwyr plant, clybiau gwyliau, creches, mamaethod na meithrinfeydd gofal dydd cofrestredig sy'n darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg. Nid oes unrhyw grwpiau chwarae Cymraeg yn Ardaloedd 1, 6, 7 nac 8 (CH4, LL12, LL18 a LL19), ond mae gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint glybiau ar ôl ysgol ac mae'r rhain ar waith yn y Fflint, yr Wyddgrug, Treffynnon, Treuddyn a Phicton.

Meysydd i'w gwella

- *Mae angen mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg o bob math ym mhob ardal yn Sir y Fflint, yn enwedig y rhai sy'n darparu gofal diwrnodau llawn yn ystod y tymor a gwyliau'r ysgol.*
- *Dylid annog pob lleoliad gofal plant i ddarparu rhai elfennau dwyieithog, o leiaf*
- **Darpariaeth gofal plant ar gyfer categorïau ieithoedd gwahanol**

Nid oes darpariaeth gofal plant ar gael yn Sir y Fflint mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, ac ychydig iawn o alw sydd amdani. Er gwaethaf targedu amryw rwydweithiau lleiafrifol, un yn unig a wnaeth ymateb i'r arolwg rhieni â iaith arall, felly ni allwn ddod i gasgliad o werth o'r arolwg hwn mewn perthynas â dewis iaith mewn lleoliadau gofal plant. O ganlyniad i hynny, byddai'n anodd datblygu darpariaeth gofal plant gynaliadwy mewn ieithoedd gwahanol.

Maes i'w wella

- Dylid cefnogi lleoliadau er mwyn annog teuluoedd â ieithoedd eraill i ddefnyddio lleoliadau gofal plant sefydledig.

Bydd gwybodaeth y dadansoddiad hwn yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith yn y dyfodol, i nodi blaenoriaethau ac i ddyrannu cyllid trwy gynnwys canfyddiadau allweddol o fewn y Cynllun Gweithredu (Adran 16).

Ffynonellau Gwybodaeth

Defnyddiwyd y data diweddaraf sydd ar gael yn yr asesiad hwn ac rydym yn cydnabod bod posibilrwydd nad yw mor gyfredol ag yr hoffem iddo fod. Fodd bynnag, byddwn yn edrych eto ar ddata a gasglwyd ac yn ei ddiweddarau'n flynyddol yn ôl yr angen er mwyn ei gynnwys yn yr adolygiad blynyddol ac yn fersiwn ddiweddaraf yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (2017 - 2021).

Mae'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd fel cyfeiriadau data gwreiddiol ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Adroddiadau a safbwyntiau a ddaeth o:
 - Ymgynghori â Rhieni
 - Ymgynghori â Darparwyr Gofal Plant (Datganiadau Hunanasesu Gwasanaeth a ddychwelwyd i AGGCC)
 - Ymgynghori â Chyflogwyr
- InfoBase Sir y Fflint
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru - Mynegai Plant 2008
- Cyfrifiad 2011
- Cyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd Gogledd Cymru
- Daffodil (y Sefydliad Gofal Cyhoeddus)
- Arolwg Iechyd Cymru
- Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

- Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru: InfoBase Cymru
- Y Ganolfan Byd Gwaith
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Cyllid a Thollau EM: Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith
- Ystadegau a data o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Diolchiadau

Hoffai Cyngor Sir y Fflint ddiolch i'r rhieni, gofalwyr, darparwyr gofal plant a'r cyflogwyr a ymatebodd i broses ymgynghori 2017 trwy fod yn rhan o arolygon amrywiol drwy'r post, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.